Senedd Cymru
**Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**

# Ymateb i stormydd diweddar

Medi 2025



senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/SeneddHinsawdd**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddHinsawdd@senedd.cymru**
X: **@SeneddHinsawdd**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2025**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**

# Ymateb i stormydd diweddar

Medi 2025

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
**www.senedd.cymru/SeneddHinsawdd**

---

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:**
**Llyr Gruffydd AS**
Plaid Cymru



**Janet Finch-Saunders AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Delyth Jewell AS**
Plaid Cymru



**Julie Morgan AS**
Llafur Cymru



**Carolyn Thomas AS**
Llafur Cymru



**Joyce Watson AS**
Llafur Cymru

---

Mynychodd yr Aelod a ganlyn fel dirprwy yn ystod yr ymchwiliad hwn.



**Heledd Fychan AS**
Plaid Cymru

# Cynnwys

**Rhagair y Cadeirydd** ..... 5

**Argymhellion** ..... 6

**1. Effaith stormydd Bert a Darragh** ..... 9

**2. Digonolrwydd systemau darogan a rhybuddio** ..... 12

**3. Ymateb i ddigwyddiadau tywydd garw** ..... 30

**4. Cymorth i gymunedau ac unigolion** ..... 45

**5. Gwydnwch y seilwaith** ..... 50

**6. Paratoi ar gyfer dyfodol mwy aflonyddgar** ..... 56

**Atodiad 1: Rhestr o'r sesiynau tystiolaeth lafar** ..... 64

**Atodiad 2: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig** ..... 66

# Rhagair y Cadeirydd

Dros gyfnod o dair wythnos ym mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2024, cafodd Cymru ei tharo gan stormydd Bert a Darragh. O Bontypridd i Gaergybi, cafwyd difrod difrifol. Cafodd cartrefi eu heffeithio gan lifogydd. Roedd y seilwaith wedi'i orlethu. Gadawyd degau o filoedd o bobl heb drydan.

Pwrpas ein hymchwiliad oedd gweld pa wersi y gellir eu dysgu, wrth inni wynebu dyfodol ble y byddwn yn gweld stormydd mwy difrifol ac amlach. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys cyfres o argymhellion i gryfhau gallu Cymru i wrthsefyll stormydd o'r fath. Rydym yn galw am fabwysiadu'r technolegau darogan diweddaraf, rhybuddion cyhoeddus mwy cyson a chliriach, gwell system o rannu data er mwyn diogelu preswylwyr sy'n agored i niwed. Rydym hefyd yn galw am gamau gweithredu yr ydym yn credu y byddant yn arwain at fanteision hirdymor sylweddol - atebion sy'n seiliedig ar natur a rheoli llifogydd ar raddfa dalgylch yw'r dulliau sydd â'r potensial gorau i fynd i'r afael â'r heriau yr ydym yn eu hwynebu.

Fe wnaethom ystyried yr effaith ar breswylwyr y cafodd eu cartrefi eu difrodi gan stormydd Bert a Darragh. Rydym wedi gofyn i Lywodraeth Cymru ailedrych ar y cyllid brys ar gyfer aelwydydd, gwella'r gwasanaeth cyfeirio at y cynllun yswiriant Flood Re, ac ymgorffori cymorth iechyd meddwl i bobl sy'n cael trafferth ymdopi yn sgil y difrod a achoswyd gan y stormydd. Gan edrych i'r dyfodol, rydym wedi galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno grantiau i gartrefi a busnesau i ariannu mesurau gwydnwch, fel eu bod wedi'u hamddiffyn yn well rhag stormydd yn y dyfodol.

Hoffwn ddiolch i bawb a gyfrannodd at ymchwiliad y Pwyllgor, yn enwedig yr aelodau hynny o'r cyhoedd y cafodd eu bywydau eu heffeithio mor ddifrifol gan stormydd Bert a Darragh yn ystod gaeaf 2024.

Wrth i effeithiau newid hinsawdd ddwysáu, disgwylir y byddwn yn gweld digwyddiadau tywydd eithafol yn amlach. Rhaid inni ddysgu'r gwersi o stormydd Bert a Darragh, fel bod Cymru wedi'i pharatoi'n well i ymdopi â'r dyfodol ansicr hwn.



**Llyr Gruffydd AS**
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

# Argymhellion

**Argymhelliad 1.** Rhaid i Ysgrifennydd y Cabinet sicrhau bod gan CNC fynediad uniongyrchol a pharhaus at y technolegau a'r systemau darogan llifogydd diweddaraf. Dylai Ysgrifennydd y Cabinet sicrhau bod rhaglen gyllido ar gael at y diben hwn, ac er mwyn sicrhau bod Cymru'n gallu dylanwadu ar flaenoriaethau ymchwil a datblygu. Dylai Ysgrifennydd y Cabinet hefyd sicrhau bod CNC yn gallu cael mynediad at dreialon darogan ensemble a chymryd rhan ynddynt. ....... Tudalen 28

**Argymhelliad 2.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet sicrhau bod dull systematig yn cael ei gyflwyno ar gyfer ymarferion gwersi a ddysgwyd ar draws asiantaethau yn dilyn digwyddiadau fel stormydd Bert a Darragh....... Tudalen 29

**Argymhelliad 3.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet weithio gyda phartneriaid i sicrhau bod y Fframwaith Rhybuddion Cyffredin yn cael ei weithredu, fel bod yr iaith a ddefnyddir mewn rhybuddion llifogydd yn gyson a bod y cyhoedd a'r sefydliadau ymateb yn ei deall....... Tudalen 29

**Argymhelliad 4.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet weithio gyda CNC a phartneriaid perthnasol i gynyddu ymgysylltiad y cyhoedd â rhybuddion llifogydd a rhybuddion tywydd, gan ganolbwyntio'n benodol ar aelwydydd incwm isel ac aelwydydd sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol. ....... Tudalen 29

**Argymhelliad 5.** Dylai CNC roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am hyrwyddo, cyrhaeddiad ac effaith ei wasanaeth rhybuddion tywydd, gan gynnwys sut y mae llwyddiant yn cael ei fesur a pha gamau sy'n cael eu cymryd i wella cyfraddau cofrestru a hygyrchedd. ....... Tudalen 29

**Argymhelliad 6.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet sicrhau bod y Fframwaith Ymateb i Lifogydd yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru i adlewyrchu'r gwersi o'r llifogydd sydd wedi digwydd ers 2016....... Tudalen 43

**Argymhelliad 7.** Dylai'r Fframwaith Ymateb i Lifogydd ddiffinio rolau a chyfrifoldebau, gan gynnwys i'r rhai mewn rolau arwain, ar draws pob lefel o lywodraeth ac asiantaethau ymateb, er mwyn gwella dealltwriaeth ac atebolrwydd....... Tudalen 43

**Argymhelliad 8.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cyllid ychwanegol a ddarperir i Fforymau Gwydnwch Lleol i gefnogi gwaith cydgysylltu amlasiantaethol. ....... Tudalen 43

**Argymhelliad 9.** Dylai'r Fframwaith Ymateb i Lifogydd nodi protocolau uwchgyfeirio clir ar gyfer Grwpiau Cydlynu Tactegol a Strategol....................Tudalen 43

**Argymhelliad 10.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet egluro sut y caiff y prosiect JIGSO ei ddefnyddio a'i effeithiolrwydd, gan gynnwys a allai fod yn ddewis arall dibynadwy i'r systemau Cofrestr Gwasanaethau Blaenoriaeth presennol, neu ategu'r rhain. Dylai Ysgrifennydd y Cabinet nodi sut y bydd yn gwella ymwybyddiaeth o'r offeryn ymhlith ymatebwyr brys. ..........................................Tudalen 43

**Argymhelliad 11.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet sicrhau bod Fforymau Gwydnwch Lleol yn datblygu cytundebau ffurfiol, safonol gyda sefydliadau'r trydydd sector, gan sicrhau y gellir defnyddio'r partneriaid hyn yn gyflym ac yn effeithiol yn ystod argyfyngau..........................................................................................................Tudalen 43

**Argymhelliad 12.** Dylai fod cydnabyddiaeth gryfach o rôl grwpiau cymunedol. Dylai Ysgrifennydd y Cabinet weithio ochr yn ochr â CNC i ymchwilio i gyfleoedd i ddarparu cyllid cynaliadwy ar gyfer grwpiau gwydnwch cymunedol.......Tudalen 44

**Argymhelliad 13.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet roi diweddariad i'r Pwyllgor ar y camau sy'n cael eu cymryd gan Lywodraeth Cymru neu CNC i ymgorffori cyfranogiad cymunedol mewn prosesau cynllunio ar gyfer y gallu i wrthsefyll llifogydd, gan gynnwys drwy fforymau dinasyddion a chynlluniau lleol a gyd-ddyluniwyd. ..........................................................................................................Tudalen 44

**Argymhelliad 14.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet adolygu pa mor ddigonol yw'r cyllid brys presennol a ddarperir gan Lywodraeth Cymru i aelwydydd yr effeithir arnynt gan lifogydd, er mwyn sicrhau bod cymorth ariannol yn adlewyrchu'n well y costau sy'n deillio o ddigwyddiadau tywydd garw. ..........................................Tudalen 49

**Argymhelliad 15.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet gyflwyno cyllid grant i alluogi cartrefi a busnesau unigol i roi mesurau gwydnwch ataliol ar waith, fel llifddorau. ..........................................................................................................Tudalen 49

**Argymhelliad 16.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar sut, yn ei farn ef, y gellir hyrwyddo cynlluniau yswiriant presennol fel Flood Re yn well i breswylwyr ardaloedd sy'n wynebu risg uchel o ddioddef llifogydd yng Nghymru. ..........................................................................................................Tudalen 49

**Argymhelliad 17.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet gymryd camau i sicrhau bod cymorth iechyd meddwl yn cael ei integreiddio i strategaethau lleol ar gyfer ymateb i lifogydd ac adfer o lifogydd. ..........................................Tudalen 49

**Argymhelliad 18.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod canllawiau cenedlaethol ar gyfrifoldebau glannau afonydd, gan gynnwys ar gyfer cwlfertau a ffosydd, yn cael eu diweddaru a'u hyrwyddo. Dylai'r canllawiau gael eu hategu gan offer mapio, cofrestr o berchnogion, a chymorth ar gydymffurfio i dirfeddianwyr. ........Tudalen 55

**Argymhelliad 19.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet adolygu'r Cynllun Cymorth Ariannol Brys (EFAS) i sicrhau bod trothwyon y cynllun yn adlewyrchu capasiti ariannol awdurdodau lleol i ymateb i ddigwyddiadau tywydd garw sy'n codi dro ar ôl tro. ........Tudalen 55

**Argymhelliad 20.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet ystyried a yw strategaeth 10 mlynedd, fel y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Llifogydd ac Erydu Arfordirol, yn ddigonol i sicrhau cynllunio a buddsoddi hirdymor gwell........Tudalen 62

**Argymhelliad 21.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet roi diweddariad ar weithredu argymhellion adolygiad Adran 19, a arweiniwyd gan Elwen Evans CB. ....Tudalen 62

**Argymhelliad 22.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet adolygu proses ymchwilio i lifogydd Adran 19 i sicrhau ei bod yn cefnogi cynllunio gwydnwch lleol yn well. ........Tudalen 63

**Argymhelliad 23.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygu'r map ffordd cynllunio dalgylchoedd, gan gynnwys amserlenni a chyfranogiad rhanddeiliaid. ........Tudalen 63

**Argymhelliad 24.** O ystyried eu heffaith bosibl, dylai Ysgrifennydd y Cabinet flaenoriaethu'r gwaith o ehangu atebion sy'n seiliedig ar natur, a sicrhau bod lefelau priodol o gyllid ar gael at y diben hwnnw. Dylid rhoi cymorth i ffermwyr a thirfeddianwyr ddeall eu cyfrifoldebau a'r cyfleoedd yn y maes polisi hwn. ........Tudalen 63

**Argymhelliad 25.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet roi diweddariad ar y camau sy'n cael eu cymryd i ehangu'r defnydd o atebion sy'n seiliedig ar natur, gan gynnwys manylion sut y mae'r rhain yn cael eu hymgorffori mewn fframweithiau polisi a sicrwydd y bydd y cynlluniau hyn yn parhau i gael eu hariannu y tu hwnt i 2025-26........Tudalen 63

# 1. Effaith stormydd Bert a Darragh

**1.** O fewn ychydig wythnosau tua diwedd 2024, cafodd Cymru ei tharo gan stormydd Bert a Darragh. Profodd cymunedau o Bontypridd i Gaergybi lifogydd, tirlithriadau a gwyntoedd cryfion.

## Storm Bert

**2.** O ddydd Gwener, 22 Tachwedd, i ddydd Llun, 25 Tachwedd 2024, achosodd Storm Bert ddifrod difrifol mewn rhannau o Gymru. Yng nghymoedd De Cymru, roedd cyfanswm y glawiad yn ystod Storm Bert rhwng 50% a 100% o'r cyfartaledd a ddisgwyliwyd yn ystod mis Tachwedd ar ei hyd. Cyrhaeddodd rhai afonydd, megis afonydd Ebwy yn Aber-bîg, y lefel uchaf a gofnodwyd erioed. Cafodd mwy na 700 o adeiladau eu heffeithio gan lifogydd ledled Cymru.

**3.** Gorlifodd Afon Taf ei glannau yn helaeth, ac roedd tref Pontypridd, a gafodd ei tharo'n wael gan Storm Dennis yn 2020, unwaith eto yn un o'r trefi yr effeithiwyd arni waethaf.

**4.** Yng Nghwmtyleri ym Mlaenau Gwent, bu i ran o domen lo segur ddymchwel, gan arwain at orfod gwagio tua 40 o gartrefi wrth i greigiau a mwd lifo i strydoedd preswyl.

**5.** Agorodd llyncdwll mawr ar stryd breswyl ym Merthyr Tudful ar ôl i glogfeini ddifrodi cwlfert tanddaearol o oes Fictoria.

**6.** Yn y gogledd, bu farw un person mewn llifogydd yn Nhrefriw, Conwy.

**7.** Fe wnaeth llifogydd a difrod i seilwaith darfu'n sylweddol ar wasanaethau rheilffyrdd, a bu'n rhaid cau llinell Calon Cymru a llinell y Gororau. Bu'n rhaid cau sawl ffordd hefyd oherwydd llifogydd a thirlithriadau, gan gynnwys yr A479 ym Mhowys a'r A4042 yn Sir Fynwy.

**8.** Ar ôl y storm, ariannodd Llywodraeth Cymru grantiau gwerth £500 a £1000 i aelwydydd yr effeithiwyd arnynt gan lifogydd. Cynigiodd rhai awdurdodau lleol gymorth ariannol hefyd, gan gynnwys Cyngor Rhondda Cynon Taf, a roddodd grantiau o £1000 i drigolion a busnesau yr effeithiwyd arnynt.

## Storm Darragh

**9.** Cyrhaeddodd Storm Darragh bythefnos ar ôl Storm Bert ac fe'i nodweddwyd gan wyntoedd cryf iawn. Cyhoeddodd y Swyddfa Dywydd rybudd coch prin i

'weithredu' mewn perthynas â gwynt a oedd yn cwmpasu gorllewin Cymru ac arfordir Môr Hafren. Rhoddodd Llywodraeth y DU hefyd rybudd brys dros y ffôn i'r rhai yn yr ardaloedd yr effeithiwyd arnynt, sef y defnydd cyntaf o'r system hon yng Nghymru ers ei chyflwyno yn 2023.

**10.** Achoswyd difrod sylweddol i'r rhwydwaith dosbarthu trydan foltedd isel ledled Cymru, sy'n cyflenwi trydan yn uniongyrchol i eiddo. Mae'r rhwydweithiau hyn yn cael eu cynnal a'u cadw gan gwmnïau preifat, sef Dosbarthiad Trydan y Grid Cenedlaethol (NGED) yn y de, a Rhwydweithiau Ynni SP (SPEN) yn y gogledd.

**11.** Roedd tua 95,000 o gartrefi heb drydan ar 7 Rhagfyr. Dywedodd SPEN fod llai na 500 o'i gwsmeriaid yn dal heb drydan ar 12 Rhagfyr. Dywedodd llefarydd ar ran NGED fod pŵer wedi'i adfer i'w holl gwsmeriaid erbyn 14 Rhagfyr.

**12.** Difrodwyd pier Llandudno, sy'n 150 oed, pan gafodd sawl ciosg ei rwygo oddi ar ei sylfeini.

**13.** Gorfodwyd Porthladd Caergybi i gau yn gyfan gwbl am dros fis yn sgil difrod i'r seilwaith angori yn ystod Storm Darragh.

## Ymchwiliad y Pwyllgor

**14.** Ym mis Chwefror 2025, derbyniodd y Pwyllgor ohebiaeth gan Andrew RT Davies AS a Heledd Fychan AS, yn galw arno i gynnal ymchwiliad i ymatebion Llywodraeth Cymru ac asiantaethau perthnasol i Storm Bert.

### Cylch gorchwyl

**15.** Cytunodd y Pwyllgor i ystyried astudiaethau achos stormydd Bert a Darragh er mwyn cael darlun cyffredinol o'r fframwaith presennol ar gyfer paratoi ar gyfer stormydd yng Nghymru ac ymateb iddynt, ac i nodi unrhyw fylchau. Yn ogystal â hynny, byddai'r Pwyllgor yn ystyried:

- A oedd systemau paratoi, darogan, hysbysu a rhybuddio yn ddigonol.
- Gwydnwch seilwaith, megis systemau dŵr a charthffosiaeth, seilwaith dosbarthu trydan, a rhwydweithiau trafnidiaeth i effeithiau stormydd, gan gynnwys tirlithriadau, cwlfertau a ddifrodwyd a ffurfiad llyncdyllau.
- Yr effaith ar gymunedau, a rôl tirfeddianwyr, grwpiau cymunedol, a sefydliadau'r trydydd sector.
- Ymateb awdurdodau cyhoeddus a phreifat.

- A yw sefydliadau perthnasol wedi dysgu gwersi yn dilyn stormydd gaeaf blaenorol, yn enwedig Storm Dennis yn 2020, a sut mae'r gwersi hyn yn llywio'r dull gweithredu presennol.

**16.** Cynhaliodd y Pwyllgor sesiynau tystiolaeth lafar gyda chyrff darogan tywydd, awdurdodau cyhoeddus, cyflenwyr ynni a chwmnïau dŵr. Mae rhestr lawn o'r rhai a gyfrannodd wedi'i chynnwys mewn Atodiad i'r Adroddiad hwn.

**17.** Yn ogystal â hynny, cynhaliodd Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion y Senedd raglen ymgysylltu i glywed profiadau unigolion yn y cymunedau yr effeithiwyd arnynt fwyaf gan stormydd Bert a Darragh. Mae adroddiad llawn ar y gwaith hwn ar gael ar wefan y Senedd. Mae dyfyniadau o'r canfyddiadau wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad hwn drwyddo draw.

## Adroddiad Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru (CSCC) - Meithrin y Gallu i Wrthsefyll Llifogydd yng Nghymru erbyn 2050

**18.** Ym mis Hydref 2024, cyhoeddodd CSCC ei adroddiad "Meithrin y Gallu i Wrthsefyll Llifogydd yng Nghymru erbyn 2050". Er bod cwmpas yr Adroddiad yn ehangach na chylch gwaith ymchwiliad y Pwyllgor, mae'n cynnwys sawl argymhelliad perthnasol, y cyfeirir atynt yn yr Adroddiad hwn. Ysgrifennodd Ysgrifennydd y Cabinet at CSCC ar 17 Ebrill 2025, gydag ymateb i'w argymhellion.

## Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

**19.** Ym mis Ebrill 2025, cyhoeddodd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig y Senedd adroddiad ar ganfyddiadau cychwynnol ei waith ar "Difrod a Chau Porthladd Caergybi yn Dilyn Storm", a oedd wedi cael ei achosi gan Storm Darragh.

# 2. Digonolrwydd systemau darogan a rhybuddio

*"Rydyn ni'n cael rhybuddion rheolaidd nad ydyn nhw'n effeithio arnon ni hyd yn oed. Rydyn ni'n cael rhybuddion ar gyfer Powys gyfan. Pe bawn i'n gweithredu bob tro y byddai'r gloch yn canu, fyddwn i byth yn agor fy siop."*

Roedd llawer o aelodau'r cyhoedd a gyfrannodd at ein gwaith yn teimlo bod rhybuddion, yn enwedig rhybuddion llifogydd, yn aml yn rhy gyffredinol ac nad ydynt yn darparu ar gyfer lleoliadau daearyddol penodol. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd rhagweld pryd i weithredu.

Roedd rhai yn teimlo bod y systemau rhybuddio am lifogydd, yr addawyd eu bod wedi gwella ers Storm Dennis yn 2019, wedi eu siomi. Ar ôl cael gwybod bod "pethau gwych wedi'u rhoi ar waith" ers y storm honno, roeddent yn siomedig eu bod wedi wynebu'r un heriau.

## Y system ddarogan

**20.** Mae sawl sefydliad yn ymwneud â darogan digwyddiadau tywydd eithafol, a chyhoeddi rhybuddion.

**21.** Mae'r Swyddfa Dywydd yn gorff sy'n eiddo i Lywodraeth y DU ac mae'n darparu'r Gwasanaeth Tywydd Cyhoeddus a'r Gwasanaeth Rhybuddion Tywydd Garw Cenedlaethol. Mae'n darparu asesiad dyddiol o beryglon i sefydliadau sy'n ymatebwyr ac mae'r rhan o Fforymau Gwydnwch Lleol[1] fel sefydliad ymateb Categori 2 o dan y Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004. Yn 2015, cyflwynwyd menter "Enwi ein Stormydd" gan y Swyddfa Dywydd, Met Éireann a Sefydliad Meteorolegol Brenhinol yr Iseldiroedd (KNMI). Y bwriad oedd gwella ymwybyddiaeth y cyhoedd o ddigwyddiadau tywydd garw.

**22.** Sefydlwyd y Ganolfan Darogan Llifogydd yn 2009. Mae'r Ganolfan yn bartneriaeth strategol rhwng y Swyddfa Dywydd ac Asiantaeth yr Amgylchedd[2]. Esboniodd y Ganolfan Darogan Llifogydd ei bod yn helpu i gynnal a gwella modelau a systemau llifogydd cenedlaethol, gan gydweithio'n agos â sefydliadau ledled y wlad a hyrwyddo a rhannu arferion gorau ledled y byd.[3] Ychwanegodd ei

[1] Mae Fforymau Gwydnwch Lleol yn cynnwys yr holl sefydliadau ymatebwyr sydd â dyletswydd i gydweithredu o dan y Ddeddf Argyfyngau Sifil.
[2] Tystiolaeth Ysgrifenedig
[3] Tystiolaeth Ysgrifenedig

bod yn cael ei hariannu'n bennaf gan Defra gyda chyfraniad gan Lywodraeth Cymru drwy gyllid i Cyfoeth Naturiol Cymru.[4]

**23.** Crynhodd Simon Brown, o'r Swyddfa Dywydd, y dull amlsefydliad o ddarogan a rhybuddio fel chwaraeon tîm. Dywedodd:

> *"So, we've got to get the weather forecast right, the flood models have got to show the impact, the responder community has got to work, and local communities have got to take action. So, that whole jigsaw puzzle has to work, to really make sure we're looking after the citizens of Wales."*[5]

**24.** Mae'r Swyddfa Dywydd yn cyhoeddi rhybuddion melyn, oren, a choch pan ragwelir tywydd garw, gan ddefnyddio 'matrics darogan' yn seiliedig ar gyfuniad o debygolrwydd ac effaith bosibl.

**25.** Mae'r Ganolfan Darogan Llifogydd yn cynhyrchu Datganiad Cyfarwyddyd Llifogydd dyddiol ar lefel Awdurdod Lleol, sy'n darparu crynodeb o'r perygl llifogydd o bob ffynhonnell naturiol am hyd at bum niwrnod i ymatebwyr brys.6 Esboniodd Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) y "rhennir y Datganiad Cyfarwyddyd Llifogydd pum niwrnod gyda sefydliadau partner y Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl (e.e. awdurdodau lleol a gwasanaethau brys) i alluogi paratoadau ar gyfer llifogydd.". Mae'r Ganolfan Darogan Llifogydd hefyd yn paratoi dogfen Rhagolwg Llifogydd, sy'n darparu rhagolwg llifogydd ar gyfer y mis nesaf yng Nghymru a Lloegr. Fe'i cyhoeddir ddwywaith y mis ac mae bellach ar gael yn eang ar system Resilience Direct Swyddfa'r Cabinet a Systemau Rheoli Peryglon y Swyddfa Dywydd[7].

**26.** Mae CNC yn defnyddio gwybodaeth gan y Swyddfa Dywydd a'r Ganolfan Darogan Llifogydd i ragweld perygl llifogydd yng Nghymru. Esboniodd y Swyddfa Dywydd ei bod yn gweithio'n agos gyda Cyfoeth Naturiol Cymru, gan gefnogi ei waith o reoli peryglon llifogydd a chymryd camau gweithredu yn seiliedig ar rybuddion tywydd garw. Ychwanegodd:

> *"We provide automated feeds of weather data directly into Natural Resources Wales local models, ensuring accurate and timely information for decision-making. Daily communication between Natural Resources Wales and the Met Office, including a 24/7 direct line for urgent queries, ensures continuous*

[4] Tystiolaeth Ysgrifenedig
[5] Tystiolaeth Lafar, 20.2.2025
[6] Tystiolaeth Ysgrifenedig
[7] Tystiolaeth Ysgrifenedig

*coordination, especially during severe weather events. The Met Office also offers guidance and scenarios, adding human insights to complement model outputs, which helps Natural Resources Wales in planning and response activities."*[8]

**27.** Esboniodd CNC, yn ymarferol, ei fod yn "cymryd yr wybodaeth gan y Swyddfa Dywydd a'r Ganolfan Darogan Llifogydd ac yn cyfuno honno â data a arsylwyd o'n rhwydwaith o fesuryddion afon a glaw i ragweld llifogydd. Mewn llawer o leoliadau (ond nid pob un), mae modelau rhagolwg, sy'n prosesu'r data mewnbwn ac yn rhagweld beth sy'n debygol o ddigwydd."

**28.** Mae CNC yn cyhoeddi tair haen o rybuddion llifogydd pan fo perygl o lifogydd:

- Llifogydd. Byddwch yn barod.
- Rhybudd llifogydd. Angen gweithredu ar frys.
- Rhybudd llifogydd difrifol. Perygl i fywyd.

**Astudiaeth Achos: Storm Bert**

**29.** Ddydd Mercher, 20 Tachwedd, cyhoeddodd y Swyddfa Dywydd rybudd melyn am law yn cwmpasu Cymru gyfan bron am gyfnod o 24 awr yn dechrau o 6am ddydd Sadwrn, 23 Tachwedd. Dyma'r isaf o'r tair haen o rybuddion tywydd. Roedd disgwyl i Storm Bert fod â thebygolrwydd isel o gael effeithiau canolig, gan gynnwys siawns y gallai glaw trwm symud yn araf dros dde Cymru dros gyfnod estynedig gyda hyd at 150 mm yn bosibl mewn rhai mannau ble roedd yr effeithiau'n fwyaf tebygol o ddigwydd.

**30.** Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig, eglurodd y Swyddfa Dywydd:

*"A yellow warning was issued for Storm Bert due to the expected impacts and the available evidence at the time. The forecast indicated significant rainfall and strong winds, but the flood modelling did not support an upgrade to an amber or red warning. The yellow warning was deemed appropriate to indicate the potential for disruptive weather while maintaining consistency with the impact assessments. Strong messaging*

[8] Tystiolaeth Ysgrifenedig

*and storm naming were used to highlight possible impacts and encourage precautionary actions."*[9]

**31.** Rhwng dydd Mercher 20 a dydd Sadwrn 23 Tachwedd, roedd Datganiad Cyfarwyddyd Llifogydd y Ganolfan Darogan Llifogydd yn nodi tebygolrwydd isel o effeithiau sylweddol (perygl llifogydd isel) yn ystod Storm Bert. Dywedodd y Ganolfan Darogan Llifogydd:

*"The potential for widespread impactful weather over the weekend of the 23 and 24 November was communicated well in advance through the provision of Best Estimate (BE) and Reasonable Worst Case (RWC) rainfall scenarios to Natural Resources Wales and the Environment Agency. The RWC scenario for South Wales issued on Wednesday, 20 November, catered for accumulations above 100mm across the high ground, with isolated maximums of more than 150mm. This initial RWC forecast turned out to be very close to the total observed rainfall, even at 4 days lead time."*[10]

**32.** Aeth ymlaen i ddweud:

*"In the period between the 20 November and the 23 November there was considerable variation in the spatial and temporal detail in the model, as is typical when considering a county scale forecast. However, the RWC rainfall scenario was broadly consistent for South Wales throughout this period, maintaining the raised awareness of the potential for impactful rain and supporting the assessment for significant flooding impacts under the RWC. Further escalation of the flood risk to medium or high likelihood of significant impacts (Amber) was not deemed possible until 24 November, when it was escalated based on rapid rate of river rise and observed impacts, the RWC scenario was effective in maintaining a steady assessment for the potential for significant impacts, which was communicated to the responder community with good lead time through the FGS."*[11]

**33.** I grynhoi, dywedodd y Ganolfan Darogan Llifogydd:

[9] Tystiolaeth Ysgrifenedig
[10] Tystiolaeth Ysgrifenedig
[11] Tystiolaeth Ysgrifenedig

*"Following rising river levels in parts of South East Wales, observed impacts and the potential for further significant impacts, the overall flood risk was escalated to MEDIUM (Significant Impacts, Amber) on Sunday 24 November. This was a change on the Flood Risk Matrix from low likelihood of significant impacts to a high likelihood of significant impacts for parts of South East Wales."*[12]

**34.** Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd CNC drwy gydol y cyfnod cyn y storm:

*"Roedd CNC yn cymryd y data glawiad diweddaraf a ragwelwyd ac yn ei redeg drwy ein modelau rhagweld i asesu'r perygl llifogydd a ragwelwyd (yn y dyfodol). Fe wnaethom gyhoeddi 65 o negeseuon llifogydd yn y cyfnod cyn y storm i rybuddio trigolion bod llifogydd yn bosibl. Fe wnaethom gyhoeddi 68 o rybuddion llifogydd a 2 rybudd llifogydd difrifol yn nes at y digwyddiadau pan oedd mwy o sicrwydd yn y rhagolygon a'r lleoliadau."*[13]

**35.** Gan gyfeirio at effaith ddifrifol Storm Bert ar gymoedd de Cymru, eglurodd CNC:

*"Mae dalgylchoedd dyffrynnoedd serth fel Cymoedd y De, oherwydd eu topograffi, yn ymateb yn gyflym iawn i gawodydd trwm. Yr hyn a brofwyd gennym yn ystod Storm Bert oedd glaw trwm iawn a oedd yn anodd iawn rhagweld ble'n union roedd yn mynd i daro. Ymatebodd afonydd dalgylch yr afon Taf yn hynod o gyflym i'r glawiad, gan roi amser arwain byr ar gyfer cyhoeddi rhybuddion…Mae'r amser arwain byr rhwng glaw yn disgyn ac afonydd yn codi ac effeithiau'n digwydd, ynghyd â'r ansicrwydd, i gyd yn gwthio ffiniau rhagweld a galluoedd dynol i ymateb."*[14]

**36.** Roedd cynrychiolwyr awdurdodau lleol yn unfrydol yn eu beirniadaeth o gywirdeb y rhagolygon ar gyfer Storm Bert. Yn ôl Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent:

[12] Tystiolaeth Ysgrifenedig
[13] Tystiolaeth Ysgrifenedig
[14] Tystiolaeth Ysgrifenedig

> *"The forecasting for Storm Bert wasn't adequate. The yellow rain warning didn't escalate above a low likelihood and medium impact, which didn't reflect the situation. As a result, preparations and response structures that would normally be established for an Amber weather warning were not in place."*[15]

**37.** Roedd gan Gyngor Sir Caerfyrddin farn debyg:

> *"Upon reflection, one could argue that the actual intensity of the actual storm was inaccurately predicted for Carmarthenshire and consequently the standard mechanisms of warning and informing were not implemented on a Dyfed Powys Local Resilience Forum (DPLRF) area basis."*[16]

a

> *"Internal council planning and resourcing meetings (focussed on highways and flood response aspects of work) were set up as we would in any yellow storm warning, but based on the forecast there was no obvious need for a DPLRF initiated Pre-Emergency Assessment Teleconference (PEAT). We would not expect to do set up such for yellow warnings, as these are now quite frequent occurrences. For the same reasons, no LRF SCG/TCG*[17]*s were called."*[18]

**38.** Mewn tystiolaeth lafar, roedd y Cynghorydd Andrew Morgan yn feirniadol o'r rhybuddion yn ystod Storm Bert, gan ddadlau bod difrifoldeb y glawiad wedi'i danamcangyfrif. Disgrifiodd y sefyllfa ym Mhontypridd, lle mai dim ond ar ôl i lifogydd ddigwydd yn rhannau o'r dref y cyhoeddwyd rhybuddion llifogydd swyddogol. Nododd Kevin Kinsey o Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent fod lefel y glawiad yn fwy na'r disgwyliadau a osodwyd gan y rhybuddion melyn, gan olygu ei bod yn anodd i'r awdurdod ddefnyddio ei adnoddau. Adleisiodd y Cynghorydd Jackie Charlton, o Gyngor Sir Powys, y farn hon.

**39.** Pan gafodd ei herio gan y Pwyllgor i ymateb i'r feirniadaeth hon, dywedodd Simon Brown:

> *"I think it's fair to say, if you look at the weather forecast, the rainfall we observed for storm Bert was pretty much in line with*

[15] Tystiolaeth Ysgrifenedig
[16] Tystiolaeth Ysgrifenedig
[17] Grŵp Cydlynu Strategol a Grŵp Cydlynu Tactegol.
[18] Tystiolaeth Ysgrifenedig

> *what we forecast. But the forecast is only then as good as the value chain and the comms you do to get people to take action. So, it's a decision not just about the weather forecast. Storm Bert was a really good example. The FFC flood models, in conjunction with NRW, were not showing the risk of flooding…"*[19]

**40.** Disgrifiodd Russel Turner ragolygon y Ganolfan Darogan Llifogydd fel rhai cywir, yn seiliedig ar gyfyngiadau'r dull presennol. Esboniodd, fod y Ganolfan Darogan Llifogydd ar hyn o bryd yn:

> *"put(s) one rainfall forecast through and then test that. We should be putting 36 every 12 hours through, not one, and going with that. So, I think that's where we need to move to in terms of providing the best information, because then you can quantify the uncertainty and test it more, whereas in the lead-in to the event, by just taking one rainfall forecast, which was sort of ebbing or flowing around the threshold level, that didn't give enough confidence to escalate the risk there, which is why it stayed as low likelihood. It would have only moved to medium likelihood if we'd had more confidence in that, that there was more likelihood. But you'd have only got that if you'd have put all of the rainfall forecast through."*[20]

### Astudiaeth Achos: Storm Darragh

**41.** Cyhoeddodd y Swyddfa Dywydd rybudd coch anghyffredin ar gyfer gwynt mewn perthynas â gorllewin Cymru ac arfordir Môr Hafren cyn Storm Darragh. Roedd y rhybudd yn nodi bod tebygolrwydd mawr y byddai effeithiau difrifol yn sgil y storm. Rhoddodd Llywodraeth y DU hefyd rybudd brys dros y ffôn i'r rhai yn yr ardaloedd yr effeithiwyd arnynt, sef y defnydd cyntaf o'r system hon yng Nghymru ers ei chyflwyno yn 2023.

**42.** Wrth ymateb i'r awgrym ei bod wedi newid ei dull o ymdrin â stormydd Bert a Darragh, dywedodd y Swyddfa Dywydd wrth y Pwyllgor er bod y ddwy storm yn ddigwyddiadau cymhleth a oedd yn cynnwys sawl perygl, roedd yr effeithiau a ragwelwyd a'r tebygolrwydd y byddent yn digwydd yn wahanol. Dywedodd ei bod wedi dilyn ei harferion gorau ac asesu pob digwyddiad yn annibynnol ac roedd y rhybuddion yn adlewyrchu'r gwahaniaethau hyn.[21]

---

[19] Tystiolaeth Lafar, 20.2.2025
[20] Tystiolaeth Lafar, 20.2.2025
[21] Tystiolaeth Ysgrifenedig

**43.** Dywedodd Cyngor Sir Caerfyrddin fod y rhybuddion wedi golygu:

> *"all agencies were notified well in advance of the storm's arrival. As a result, NRW via the DPLRF convened 2 PEATS, in advance of the storm, which resulted in a pre-planned SCG and TCG on the morning of the Storm's arrival. In addition, internal council silver level preparedness meetings were held in advance of the weather that included representatives from all internal council services that were likely to be affected and impacted by the storm."*[22]

**44.** Canmolodd Huw Percy o Gyngor Sir Ynys Môn y rhybuddion a gafwyd ar gyfer Storm Darragh, gan bwysleisio bod y rhagolygon wedi helpu'r awdurdod lleol i baratoi ac ystyried sut i ddefnyddio ei adnoddau'n briodol.

## Gwersi o stormydd Bert a Darragh

Tynnodd aelodau'r cyhoedd sylw at y gwahaniaethau rhwng y systemau rhybuddio ar gyfer stormydd Bert a Darragh. Nododd y rhai yr effeithiwyd arnynt gan Storm Bert fod y rhybuddion ar gyfer Storm Darragh yn gliriach ac wedi'u cyhoeddi mewn modd mwy amserol, gan ei gwneud yn bosibl paratoi'n fwy effeithiol ymlaen llaw.

*"Na, chawson ni ddim rhybudd am y storm (Bert). Dwi'n gwybod ei bod hi'n anodd rhagweld tirlithriad, ond roedd hi'n llawer gwaeth na'r storm ddaeth wedyn (Storm Darragh). Roedd llawer mwy o rybudd am Storm Darragh na Storm Bert".*

Roedd rhai unigolion a ddioddefodd ddifrod yn ystod Storm Darragh yn teimlo bod y system rybuddio wedi bod yn effeithiol o ran eu hysbysu am ddyfodiad y storm, ac roedd y sylw helaeth yn y newyddion yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt. Fodd bynnag, nododd eraill, er iddynt gael y rhybuddion, nad oedd y system wedi rhoi digon o amser iddynt baratoi'n ddigonol ymlaen llaw ar gyfer difrifoldeb y storm, gan eu gadael heb fawr o amser i weithredu cyn i'r storm daro.

"Fe gawson ni'r rhybudd, ac roedden ni'n poeni, ond doedd dim llawer o amser gyda ni i baratoi. Allen ni ddim paratoi llawer. Doedden ni ddim yn disgwyl iddi fod mor wael ac y bydden ni'n colli pŵer."

---

[22] Tystiolaeth Ysgrifenedig

**45.** Dywedodd y Cynghorydd Andrew Morgan, yn dilyn digwyddiadau Storm Bert, y cafwyd ymgysylltiad adeiladol â CNC a'r Swyddfa Dywydd, gyda CNC yn cytuno i adolygu'r prosesau presennol sydd ar waith ar gyfer rhybuddio a hysbysu.[23]

**46.** Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd y Swyddfa Dywydd:

> *"A short roundtable meeting was held immediately after Storm Bert between the Met Office, Welsh Government and NRW. The discussions were centred around the immediate impacts of the storm, including an overview of the forecast, observed impacts and how the different agencies worked together both ahead of, and during the event. A similar meeting was also held shortly after Storm Darragh. We welcomed both discussions and would welcome the opportunity for further post-event discussions with the Welsh Government in the future."*[24]

**47.** Dywedodd Simon Brown, o'r Swyddfa Dywydd, fod tair elfen o waith yn cael eu hystyried mewn ymateb i'r materion a godwyd yn ystod Storm Bert. Eglurodd:

> *"one of the things we are reflecting internally on is our own internal decision making. We absolutely do align, particularly around rainfall events, with our partners and the flood models. The reason we do that is if you end up misaligning, and we are saying, 'It's an amber weather warning' and NRW are saying, 'There's no flood risk', that's really confusing for the public, and that's really confusing for the responder community. The question I've been asking is: are there times when we do need to misalign? This was 150 mm worth of rain, that was a lot of rain."*[25]

**48.** Aeth ymlaen i ddweud y byddai ymarfer gwersi a ddysgwyd yn cael ei gynnal gyda CNC, a fyddai'n ystyried:

> *"things like nowcasting, so on the back of storm Bert, there was, I would say, a convective, and that's a heavy downburst of rain, of about 20 mm to 30 mm of rain, and that was quite tricky, spatially, to track down. You need good radar data to do that and you need to improve the modelling capability. So, there's*

[23] Tystiolaeth Lafar, 20.2.2025
[24] Tystiolaeth Ysgrifenedig
[25] Tystiolaeth Lafar, 20.2.2025

*work to be done in that area. And then the other part of that conversation with NRW is the radar coverage in Wales."*[26]

**49.** Crynhodd drwy ddweud:

*"The third thing we are doing is looking at yellow weather warnings. People really act on ambers and reds, and we typically see about 30 to 40 amber weather warnings a year, and we have now seen our sixteenth red warning since impact-based forecasting warnings were introduced in 2011. We're going to really have a look at where we do have those medium and high-impact yellows, and what is it we can do to improve people taking the necessary action."*[27]

**50.** Nododd y Ganolfan Darogan Llifogydd dri maes allweddol i'w gwella yn seiliedig ar ei phrofiad yn ystod Stormydd Bert a Darragh:

- Integreiddio Rhagolygon Glawiad

  Tynnodd y Ganolfan Darogan Llifogydd sylw at anghysondeb o ran y ffordd y mae data glawiad yn cael eu defnyddio gan Asiantaeth yr Amgylchedd a CNC. Er bod Asiantaeth yr Amgylchedd yn elwa o integreiddio senarios glawiad y Ganolfan Darogan Llifogydd yn awtomataidd drwy ei System Darogan Rheoli Digwyddiadau (IMFS), mae gwasanaethau i CNC yn parhau yr un fath â'r rhai a ddarparwyd i Asiantaeth yr Amgylchedd cyn cyflwyno'r IMFS, sy'n gofyn am fwy o ddehongli â llaw. Argymhellodd y Ganolfan Darogan Llifogydd y dylid defnyddio'r rhagolygon glawiad mwyaf medrus gan gofnodi'r manylion a'r ansicrwydd er mwyn gwella modelu gweithredol.

- Cyfathrebu Perygl Llifogydd

  Er bod effeithiau llifogydd wedi cyd-fynd â'r rhagolygon, roedd y lefel risg swyddogol yn aml yn aros yn 'Felyn', gan achosi i rai defnyddwyr danamcangyfrif y bygythiad. Nododd y Ganolfan Darogan Llifogydd y gall Datganiad Cyfarwyddyd Llifogydd melyn gynrychioli tair senario risg wahanol, a bod angen gwaith pellach i wella dealltwriaeth o'r gwahaniaethau hyn ymhlith ymatebwyr.

- Gwell Dealltwriaeth Drawsasiantaethol

[26] Tystiolaeth Lafar, 20.2.2025
[27] Tystiolaeth Lafar, 20.2.2025

Galwodd y Ganolfan Darogan Llifogydd am hyfforddiant newydd a chysgodi rhwng Hydrometeorolegwyr a Swyddogion Monitro a Darogan ar Ddyletswydd i feithrin cyd-ddealltwriaeth. Argymhellodd y dylai pob Hydrometeorolegydd y Ganolfan Darogan Llifogydd gael y cyfle i gysgodi Swyddogion Monitro a Darogan ar Ddyletswydd yn gynnar yn eu rolau er mwyn gwella cysondeb wrth ragweld a gwneud penderfyniadau.

**51.** Wrth ymateb i bryderon a godwyd gan y Pwyllgor ynghylch amseriad rhybuddion llifogydd yn ystod Storm Bert, dywedodd Gareth O'Shea o CNC fod rhybuddion wedi'u cyhoeddi am 07:41 ym Mhontypridd, ychydig cyn i eiddo ddechrau dioddef llifogydd am 07:57. Esboniodd Tim England, Rheolwr Gweithrediadau Rheoli Llifogydd a Dŵr, fod y cynnydd cyflym yn lefel yr afon ym Mhontypridd wedi arwain at CNC yn gostwng lefelau sbarduno rhybuddion llifogydd yno.

### Darogan – gwella modelu a chywirdeb

**52.** Dywedodd tystiolaeth ysgrifenedig y Swyddfa Dywydd ei bod yn defnyddio dull darogan ensemble i fynd i'r afael ag ansicrwydd mewn perthynas â rhagolygon y tywydd. Mae hyn yn golygu cynnal efelychiadau lluosog gydag amodau cychwynnol ychydig yn wahanol, gan gynhyrchu ystod o ganlyniadau terfynol posibl. Mae ei thystiolaeth yn dangos nad yw modelau ensemble yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd i ddarogan llifogydd, ond y gallai gwneud hynny fod o werth gwirioneddol gan olygu y byddai modd mesur ansicrwydd yn well mewn rhagolygon meteorolegol, hydrolegol ac effaith, gan arwain at well rhybuddion.[28]

**53.** Mewn tystiolaeth lafar, tynnodd Russell Turner, o'r Ganolfan Darogan Llifogydd, sylw at gyfyngiadau modelau darogan llifogydd presennol, gan bledio'r achos dros symud i fodelau ensemble. Eglurodd:

> *"…the traditional approach would be to run a rainfall forecast once and put that through a flood model once. That's only so much use at a certain level. So, the smaller your catchments and the longer the lead time and the more interested you are in extreme events, the more you want to run multiple rainfall forecasts through multiple flood models to give you a real spread of understanding the possible outcomes that we might face in three, four, five days' time."*[29]

[28] Tystiolaeth Ysgrifenedig
[29] Tystiolaeth Lafar, 20.2.2025

**54.** Esboniodd fod y dull hwn yn cael ei ddatblygu ar gyfer Lloegr:

> *"what we're developing for England is a full trial of putting the whole rainfall forecast through all of the flood models so we can really objectively assess those scenarios. That's taking quite a lot of time and effort and investment, because, technically, moving a huge amount of data through from rainfall forecasts into flood models takes a lot of computer power, a lot of time, and a lot of resource from flood forecasters as well."*[30]

**55.** Eglurodd fod hyn yn golygu bod gwahaniaeth cynyddol yn y gwasanaeth a ddarperir i Gymru gan y Ganolfan Darogan Llifogydd, o'i gymharu â Lloegr. Dywedodd:

> *"it's fair to say there's a gap at the moment, and that gap potentially is growing in terms of the service that's provided.*
>
> *The approach in Wales is linked to a scenario approach, rather than putting all of the rainfall information that we can through the flood models."*[31]

**56.** Mewn tystiolaeth lafar, eglurodd Jeremy Parr, Pennaeth Rheoli Perygl Llifogydd a Digwyddiadau yn CNC, er bod perthnasoedd gweithredol yn parhau i fod yn gyson ledled Cymru a Lloegr, mae anghydraddoldebau ariannu yn golygu bod gan CNC lai o ddylanwad dros flaenoriaethau ymchwil a datblygu o'i gymharu â Lloegr. Dywedodd fod CNC yn ymchwilio i dechnolegau darogan gwell, gan gynnwys radar a deallusrwydd artiffisial, i fynd i'r afael â'r cyfyngiadau darogan presennol.

**57.** Rhoddodd Russel Turner sicrwydd i'r Pwyllgor gan ddweud:

> *"the flood model performance is good in Wales, so it's worth investing in those. So, now they've done a lot of work on getting those flood models in place, the next part is to feed them with enough of the rainfall data that will inform the response."*[32]

**58.** Ychwanegodd Simon Brown o'r Swyddfa Dywydd:

> *"What I would say…is that it's important to maintain our investment in the observations capability in Wales, because*

[30] Tystiolaeth Lafar, 20.2.2025
[31] Tystiolaeth Lafar, 20.2.2025
[32] Tystiolaeth Lafar, 20.2.2025

*that enables us to get more and more accurate, and more and more precise, around our modelling predictions, whether that's rainfall gauges, radars, or other observations equipment. So, there's a continual need to invest in observations data. Observations data is becoming even more important, particularly with artificial intelligence models."*[33]

## Rhybuddion – fframwaith a chyfathrebu

**59.** Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd y Swyddfa Dywydd ei bod yn cyhoeddi rhybuddion tywydd yn seiliedig ar gyfuniad o effaith bosibl y tywydd a'r tebygolrwydd y bydd yr effeithiau hynny'n digwydd. Mae rhybuddion wedi'u cynllunio i hysbysu'r cyhoedd, busnesau, ymatebwyr brys, a llywodraethau am dywydd garw disgwyliedig a'i effeithiau posibl. Eglurodd:

*"In any given year the total number of warnings issued will be dependent on the severity of the weather. On average, we issue around 500 warnings a year. Of this, around 60% are low impact, 38% medium impact and 2% high impact. While the total number of warnings may change, the number of days on which warnings are issued shows less variability."*[34]

**60.** Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd y Swyddfa Dywydd wrth y Pwyllgor ei bod yn gweithio gyda phartneriaid asiantaethau llifogydd i gyflwyno 'Fframwaith Rhybuddion Cyffredin' er mwyn lleihau dryswch ac amwysedd wrth gyhoeddi rhybuddion. Roedd y prosiect wedi arwain at:

- Bartneriaid asiantaethau llifogydd yn cytuno i gydweithio i adolygu'r ffordd yr aseswyd risg a chytuno ar ddull safonedig o wneud hynny.
- Partneriaid asiantaethau llifogydd yn cytuno i gydweithio i adolygu cynhyrchion presennol a chytuno ar iaith safonedig, yn ogystal â chytuno ar safonau ar gyfer y dyfodol.
- Partneriaid asiantaethau llifogydd yn cytuno i nodi cyfleoedd i gyflwyno dulliau safonedig o ymdrin â safonau technegol a'u rhoi ar waith ar draws gwasanaethau gyda ffocws ar y Protocol Rhybuddio Cyffredin, y safon ryngwladol gydnabyddedig ar gyfer gwybodaeth am rybuddion.

**61.** Ymhelaethodd Simon Brown ar hyn mewn tystiolaeth lafar, gan dynnu sylw at wahaniaethau yn y derminoleg a ddefnyddir gan wahanol asiantaethau yn eu

[33] Tystiolaeth Lafar, 20.2.2025
[34] Tystiolaeth Ysgrifenedig

hasesiadau risg. Dywedodd y byddai mynd i'r afael â hyn yn gwella gallu'r cyhoedd yn sylweddol i ddeall rhybuddion ac ymateb yn briodol yn ystod digwyddiadau tywydd garw.

### Ymgysylltu â'r cyhoedd a chyfathrebu

**62.** Tynnodd Simon Brown sylw at y lefel isel o ymgysylltiad gan y cyhoedd â rhagolygon tywydd yng Nghymru o'i gymharu â rhannau eraill o'r DU, gyda dim ond tua 51% o bobl yn gwirio rhagolygon bob dydd. Roedd y lefel is hon o ymgysylltiad yn broblem, yn enwedig yn ystod digwyddiadau eithafol fel Storm Bert. Tynnodd sylw hefyd at y ffaith bod preswylwyr mewn ardaloedd lle ceir mwy o amddifadedd economaidd yn tueddu i edrych ar ragolygon a rhybuddion tywydd yn llai aml. Awgrymodd y dylai Llywodraeth Cymru a chyrff eraill flaenoriaethu ymgyrchoedd addysgol a strategaethau cyfathrebu gwell i ymgysylltu â thrigolion mewn ardaloedd yr effeithir arnynt dro ar ôl tro gan dywydd garw.

**63.** Nododd y Groes Goch Brydeinig, mewn tystiolaeth ysgrifenedig:

> *"Only 16% of respondents (UK and in Wales) reported that they were signed up to receive [flood warnings], including only one in three people (33%) who had personally experienced flooding in the previous ten years. Of those who were not signed up - despite also reporting that they lived in an area at high risk of flooding - 36% of respondents in Wales said this was because they did not know how to or had not heard of them, while 55% said this was because the alerts were not relevant to them. One factor that may contribute to this under-utilisation of flood warnings and alerts may be digital exclusion."*[35]

**64.** Aeth ymlaen i ddweud:

> *"our UK finding that the proportion signed up from the lowest income households (9%), is significantly lower than those signed up from the highest income households (31%) - suggesting a case for targeted approaches."*[36]

**65.** Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd CNC wrth y Pwyllgor:

> *"Ym mis Gorffennaf 2024, rhoesom ein System Gwybodaeth Rhybuddion Llifogydd newydd ar gyfer Cymru ar waith, sef*

[35] Tystiolaeth Ysgrifenedig
[36] Tystiolaeth Ysgrifenedig

*buddsoddiad cyfalaf sylweddol o £5m, sy'n gwneud cyhoeddi rhybuddion yn broses gyflymach a mwy gwydn."*[37]

**66.** Amlinellodd CNC hefyd ymdrechion parhaus i wella ymwybyddiaeth a pharatoadau'r cyhoedd ar gyfer llifogydd:

> *"Mae gan CNC lawer o wybodaeth ddefnyddiol ar gael i'r cyhoedd, yn ogystal â thempledi cynlluniau llifogydd cymunedol, ar ein gwefan a all helpu aelwydydd i baratoi ar gyfer llifogydd. Un agwedd allweddol yw argymell bod aelwydydd yn cofrestru i dderbyn negeseuon llifogydd a rhybuddion llifogydd trwy'r gwasanaeth rhybuddion llifogydd rhad ac am ddim fel eu bod yn cael gwybod bod disgwyl llifogydd ac yn gallu cymryd camau i amddiffyn eu hunain a'u heiddo. Nid yw lefelau cofrestru mewn sawl rhan o Gymru mor uchel ag y byddem yn hoffi, ac mae addysg ac ymwybyddiaeth o'r adnoddau hyn yn bwysig."*[38]

**67.** Pwysleisiodd Simon Brown bwysigrwydd cael mwy o ymgysylltiad gan gymunedau Cymru a dywedodd:

> *"if there's an ask of this committee, it would be getting more representatives from Wales on that public weather customer group, which is independent of us, it's independently chaired and it's run by our sponsoring department."*[39]

## Tystiolaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet

**68.** Cydnabu Ysgrifennydd y Cabinet fod bwlch posibl rhwng galluoedd darogan Cymru a gweddill y DU. Disgrifiodd y bwlch hwn fel un cymharol fach ar hyn o bryd[40], ond pwysleisiodd bwysigrwydd parhau i gydweithio ar draws ffiniau a bod yn ymwybodol o'r gwelliannau sy'n cael eu gwneud ledled y DU.

**69.** Tynnodd Ysgrifennydd y Cabinet sylw at fuddsoddiad sylweddol Llywodraeth Cymru mewn systemau rhybuddio am lifogydd. Cyfeiriodd at yr anawsterau parhaus o ran darogan rhai mathau cymhleth o lifogydd, fel llifogydd dŵr wyneb, a phwysleisiodd fod datblygiadau mewn technoleg yn gwella galluoedd darogan. Eglurodd:

[37] Tystiolaeth Ysgrifenedig
[38] Tystiolaeth Ysgrifenedig
[39] Tystiolaeth Lafar, 20.2.2025
[40] Tystiolaeth Lafar, 27.3.2025

> *"The investment that we've already put into things such as flood alerts and flood warnings is significant. We need to engage, now, with the Met Office and with our counterparts across the border about how we align our investment going forward to make sure that we're all part of the same improvements that we've got in the technology around flood warnings. Because some of these are the really tricky areas that we've always struggled with, things like surface water flooding. We're seeing much more of that now."*[41]

**70.** Pwysleisiodd bwysigrwydd gwerthuso dulliau cyfredol o ymgysylltu â'r cyhoedd er mwyn deall beth oedd yn effeithiol. Cyfeiriodd at fuddsoddiad Llywodraeth Cymru o £6 miliwn mewn rhybuddion llifogydd a ddarperir gan CNC. Ers lansio'r gwasanaeth ym mis Gorffennaf 2024, cyhoeddwyd dros 42,000 o gwsmeriaid drwy 553 o rybuddion am lifogydd posibl, 197 o rybuddion llifogydd, a dau rybudd llifogydd difrifol. Serch hynny, roedd yn cydnabod y gellid gwella'r cyfraddau sy'n cofrestru i dderbyn y rhybuddion hyn.

**71.** Pwysleisiodd Ysgrifennydd y Cabinet fod ymwybyddiaeth y cyhoedd a chynyddu'r nifer sy'n defnyddio'r gwasanaeth rhybuddion llifogydd yn gyfrifoldeb ar y cyd rhwng nifer o randdeiliaid. Nododd rôl hanfodol grwpiau gwirfoddol a chymunedol lleol yn hyn o beth:

> *"The greatest reach of this is not, with all respect, me as a Cabinet Secretary, or a local authority, saying, 'You should sign up for your own good.' It's actually those voluntary organisations on the ground… that's how we get deep into these communities."*[42]

## Ein barn ni

Roedd y disgrifiad o'r broses darogan a rhybuddio fel "chwaraeon tîm" yn drawiadol, gydag amrywiaeth o sefydliadau ac ymatebwyr yn ymgymryd â'u rolau unigryw a hanfodol eu hunain. Ond mae hefyd yn wir mai sylfaen yr holl ymdrech ddilynol yw cywirdeb systemau darogan a rhybuddio. Mae'n hanfodol oherwydd bydd hynny'n dylanwadu ar bob cam sy'n dilyn, gan gynnwys, er enghraifft, y defnydd o adnoddau gan ymatebwyr.

Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y buddsoddiad a'r cydweithio sylweddol sy'n sail i systemau presennol Cymru ar gyfer darogan llifogydd a rhybuddio rhag

[41] Tystiolaeth Lafar, 27.3.2025
[42] Tystiolaeth Lafar, 27.3.2025

llifogydd. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth a gawsom gan awdurdodau lleol, asiantaethau ac aelodau'r cyhoedd yn dangos yn glir bod angen gwelliannau pellach i sicrhau bod rhybuddion yn amserol ac yn effeithiol.

Rydym yn croesawu'r ymarferion gwersi a ddysgwyd yn dilyn stormydd Bert a Darragh, ond yn ailadrodd bod yn rhaid i'r rhain arwain at welliannau cynaliadwy a thryloyw ar draws y system darogan a rhybuddio. Rydym hefyd yn credu y dylai fod dull mwy systematig o ddysgu ar ôl digwyddiad.

Clywsom y gallai cyfyngiadau technegol effeithio ar gywirdeb darogan llifogydd yng Nghymru. Mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn Lloegr yn symud tuag at fodel ensemble, ond yng Nghymru, ceir dibyniaeth ar fodel senarios. Mae'r gwahaniaeth cynyddol hwn yn y gallu i ddarogan yn destun pryder. Roeddem yn falch o glywed bod Ysgrifennydd y Cabinet yn cydnabod pwysigrwydd ymateb i'r datblygiadau ledled y DU ac yn croesawu ei ymrwymiad i roi ystyriaeth bellach i'r mater hwn. Credwn fod yn rhaid canolbwyntio o'r newydd ar sicrhau bod gan CNC fynediad at y dechnoleg a'r data i gefnogi model ensemble. Roeddem hefyd yn bryderus o glywed bod anghydraddoldebau cyllido yn golygu bod gan Gymru lai o ddylanwad dros flaenoriaethau ymchwil a datblygu o'i gymharu â Lloegr. Credwn fod angen buddsoddi i sicrhau nad yw Cymru ar ei hôl hi.

Clywsom feirniadaeth droeon fod rhybuddion llifogydd yn rhy eang ac amhenodol. Rydym yn croesawu cydnabyddiaeth y Swyddfa Dywydd a CNC o'r angen am gyfathrebu mwy cyson. Mae datblygu Fframwaith Rhybuddion Cyffredin yn gam cadarnhaol i sicrhau bod iaith rhybuddio yn gyson, yn glir, a bod gan y cyhoedd a sefydliadau ymatebwyr ddealltwriaeth dda ohoni.

Mae ymgysylltiad y cyhoedd â rhybuddion tywydd a llifogydd yn parhau i fod yn bryderus o isel yng Nghymru. Mae'r Pwyllgor yn arbennig o bryderus ynghylch anghydraddoldebau mewn ymgysylltiad ymhlith aelwydydd incwm is a'r rhai sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol - cymunedau sydd yn aml yn fwyaf tebygol o ddioddef llifogydd. Nodwn y sylwadau am fuddsoddiad yn System Gwybodaeth Rhybuddio Llifogydd CNC, ond bod angen mwy o waith i gynyddu'r niferoedd sy'n cofrestru. Byddem yn ddiolchgar o gael diweddariad ar sut y mae'r gwasanaeth yn cael ei hyrwyddo a sut y mae ei effaith yn cael ei monitro gan CNC, gan gynnwys sut y bydd yn penderfynu a yw'r gwasanaeth yn llwyddiant.

## Argymhellion

**Argymhelliad 1.** Rhaid i Ysgrifennydd y Cabinet sicrhau bod gan CNC fynediad uniongyrchol a pharhaus at y technolegau a'r systemau darogan llifogydd

diweddaraf. Dylai Ysgrifennydd y Cabinet sicrhau bod rhaglen gyllido ar gael at y diben hwn, ac er mwyn sicrhau bod Cymru'n gallu dylanwadu ar flaenoriaethau ymchwil a datblygu. Dylai Ysgrifennydd y Cabinet hefyd sicrhau bod CNC yn gallu cael mynediad at dreialon darogan ensemble a chymryd rhan ynddynt.

**Argymhelliad 2.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet sicrhau bod dull systematig yn cael ei gyflwyno ar gyfer ymarferion gwersi a ddysgwyd ar draws asiantaethau yn dilyn digwyddiadau fel stormydd Bert a Darragh.

**Argymhelliad 3.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet weithio gyda phartneriaid i sicrhau bod y Fframwaith Rhybuddion Cyffredin yn cael ei weithredu, fel bod yr iaith a ddefnyddir mewn rhybuddion llifogydd yn gyson a bod y cyhoedd a'r sefydliadau ymateb yn ei deall.

**Argymhelliad 4.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet weithio gyda CNC a phartneriaid perthnasol i gynyddu ymgysylltiad y cyhoedd â rhybuddion llifogydd a rhybuddion tywydd, gan ganolbwyntio'n benodol ar aelwydydd incwm isel ac aelwydydd sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol.

**Argymhelliad 5.** Dylai CNC roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am hyrwyddo, cyrhaeddiad ac effaith ei wasanaeth rhybuddion tywydd, gan gynnwys sut y mae llwyddiant yn cael ei fesur a pha gamau sy'n cael eu cymryd i wella cyfraddau cofrestru a hygyrchedd.

# 3. Ymateb i ddigwyddiadau tywydd garw

Roedd nifer o aelodau o'r cyhoedd a effeithiwyd gan lifogydd yn ystod Storm Bert yn teimlo eu bod wedi cael eu gadael i reoli effeithiau tymor byr a hirdymor difrod y storm ar eu pen eu hunain. Roeddent yn teimlo y gallai'r awdurdodau fod wedi "rhoi rhagor o help" iddynt.

*"Y tro cyntaf i fi weld rhywun o'r cyngor oedd tua 11 o'r gloch a siaradais i ag e. Gofynnais i oes unrhyw siawns y gallwch chi ein helpu i glirio'r dŵr? Dywedodd nad oes. Byddai'n dod i gael gweld i adrodd yn ôl. Allai e ddim siarad â ni am fagiau tywod na rhoi unrhyw gymorth arall. Dywedais i fod angen help arnon ni, a dywedodd fod rhaid i ni aros nes bod lefelau'r afon wedi gostwng."*

Roedd sawl cyfrannwr hefyd yn teimlo'n rhwystredig, er gwaethaf sicrwydd gan awdurdodau lleol bod gwersi wedi'u dysgu o Storm Dennis, bod lefelau'r cymorth wedi bod yn annigonol. Er enghraifft, sefydlodd un awdurdod lleol linell gymorth frys ar gyfer llifogydd a oedd ar gael 24 awr y dydd i ddarparu cymorth a chyngor. Fodd bynnag, buan iawn y cafodd y llinell ei gorlethu gan alwadau yn ystod y storm, gan atal galwyr rhag cael gafael ar gymorth.

Fodd bynnag, roedd rhai cyfranwyr yn teimlo bod eu hawdurdod lleol "yn barod" am y storm a'u bod "allan yn clirio ffyrdd yn syth ar ôl y storm."

## Fframweithiau cyfreithiol a strategol ar gyfer ymateb i argyfyngau

**72.** Mae Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 yn darparu'r fframwaith statudol ar gyfer ymatebion gan gyrff cyhoeddus y DU i argyfyngau. Creodd y Ddeddf hon ddau gategori o ymatebwyr lleol ar gyfer paratoi ac ymateb i argyfyngau. Mae ymatebwyr Categori 1 yn cynnwys awdurdodau lleol, gwasanaethau brys a chyrff y GIG, ac maent yn ddarostyngedig i gyfres o ddyletswyddau diogelu sifil.

**73.** Mae ymatebwyr Categori 2 yn 'gyrff cydweithredol'. Maent yn llai tebygol o ymwneud â chynllunio ar gyfer argyfyngau posibl, ond maent yn ymwneud â digwyddiadau sy'n effeithio ar eu sectorau eu hunain. Mae gan ymatebwyr Categori 2 ddyletswydd i gydweithredu a rhannu gwybodaeth ag ymatebwyr eraill. Mae'r Swyddfa Dywydd (ers 2023) a chwmnïau cyfleustodau yn ymatebwyr Categori 2.

**74.** Mae'r Fforwm Cymru Gydnerth yn gorff cenedlaethol wedi'i gadeirio gan Brif Weinidog Cymru sy'n "helpu asiantaethau a gwasanaethau i gyfathrebu'n glir â'i gilydd a chynllunio at argyfyngau mewn ffordd well."

**Llifogydd**

**75.** Mae Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 yn rhoi pwerau i Lywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), ac Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol, ac yn gosod dyletswyddau arnynt. Yng Nghymru, mae awdurdodau lleol yn gweithredu fel Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru gynhyrchu strategaeth genedlaethol ar lifogydd ac erydu arfordirol, ac i CNC adrodd i Weinidogion Cymru ar y cynnydd o ran gweithredu'r strategaeth. Cyhoeddwyd y strategaeth ddiweddaraf ym mis Hydref 2020.[43]

## Fframwaith Gwydnwch Cymru

**76.** Ym mis Mai 2025, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Fframwaith Gwydnwch Cymru 2025. Mae'r Fframwaith yn dweud:

> *"Pwrpas y ddogfen hon yw nodi'r weledigaeth, yr egwyddorion craidd, y dull strategol, y blaenoriaethau a'r canlyniadau ar gyfer gwella gwydnwch Cymru. Mae'n nodi'r trefniadau ar gyfer rheoli risg yn effeithiol a pharodrwydd ar gyfer argyfyngau, meithrin gallu, ymateb ac adferiad ar ôl argyfyngau a her aflonyddgar. Mae'r Fframwaith yn cyd-fynd â gofynion Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 ac fe'i cynhyrchwyd mewn ymgynghoriad ag ymatebwyr brys yng Nghymru. Mae'n defnyddio arferion da a gwersi a ddysgwyd o argyfyngau diweddar a chanfyddiadau ymchwiliadau cyhoeddus."*

**77.** Cyhoeddwyd cynllun cyflawni ochr yn ochr â'r Fframwaith, sy'n nodi camau gweithredu penodol y bydd Llywodraeth Cymru a'r gymuned ymatebwyr brys yn eu cymryd i gyflawni ei nodau a'i ganlyniadau. Mae'r Fframwaith yn cynnwys sawl cyfeiriad at dywydd garw a llifogydd.

## Fframwaith Ymateb i Lifogydd Llywodraeth Cymru

**78.** Mae Fframwaith Ymateb i Lifogydd Llywodraeth Cymru yn nodi ei dull o ymdrin â llifogydd. Mae'n amlinellu'r cyngor, y canllawiau a'r polisïau allweddol lleol, rhanbarthol a chenedlaethol ar ymateb i lifogydd yng Nghymru, gan weithredu fel un pwynt cyfeirio ar gyfer y rhai sy'n ymwneud ag ymateb i lifogydd a'r cyhoedd yn gyffredinol. Cynhyrchodd Grŵp Llifogydd Cymru y Fframwaith ar ran Fforwm Gwydnwch Cymru, ac fe'i disgrifir fel:

[43] www.llyw.cymru/strategaeth-genedlaethol-ar-gyfer-rheoli-perygl-llifogydd-ac-erydu-arfordirol-yng-nghymru

> *"… dogfen fyw a fydd yn cael ei hadolygu gan Grŵp Llifogydd Cymru bob dwy flynedd neu'n dilyn gwersi a ddysgwyd o ddigwyddiadau neu ymarferion, ailstrwythuro sefydliadau neu newidiadau i brosesau."*

**79.** Adeg ymchwiliad y Pwyllgor, nid oedd y Fframwaith wedi cael ei diweddaru ers 2016.

**80.** Roedd gan gynrychiolwyr awdurdodau lleol safbwyntiau amrywiol ynghylch effeithiolrwydd Fframwaith Ymateb i Lifogydd Llywodraeth Cymru. Teimlai Ainsley Williams o Gyngor Sir Caerfyrddin fod y Fframwaith wedi bod yn werthfawr wrth lunio arferion cyfredol, ond argymhellodd fod angen ei adnewyddu i adlewyrchu risgiau sy'n esblygu, gan gynnwys difrifoldeb cynyddol stormydd. Adleisiodd Andrew Stone o Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (RhCT) hyn, gan ddisgrifio'r fframwaith presennol fel un nad yw'n gyfoes mwyach. Ychwanegodd fod y cyngor wedi cymryd cam yn ôl oddi wrtho i raddau oherwydd bod topograffeg yr ardal yn eithaf unigryw.[44] Yn lle hynny, roedd RhCT wedi datblygu ei brotocol ymateb lleol manwl ei hun ar ôl Storm Dennis.

**81.** Argymhellodd y Cynghorydd Andrew Morgan y dylai'r fframwaith anelu at gryfhau cymorth amlasiantaeth a gwella gwydnwch cyffredinol. Roedd Matt Perry o Gyngor Sir Powys yn cytuno, gan ychwanegu bod angen integreiddio cynlluniau ymateb amlasiantaeth lleol yn well o fewn y fframwaith cenedlaethol. Pwysleisiodd nad yw'r fframwaith yn cynnwys manylion cynlluniau ymateb amlasiantaeth unigol ar lefel leol.

**82.** Adleisiodd y Cynghorydd Jackie Charlton y pryderon hyn, a dywedodd, yn ogystal â diffinio rolau'n glir, y dylai'r fframwaith hefyd gynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o gyfrifoldebau a rennir rhwng awdurdodau lleol a CNC.

## Gwaith cydgysylltu amlasiantaethol

**Camau a gymerwyd gan awdurdodau lleol mewn ymateb i stormydd Bert a Darragh**

***Cydgysylltu a chyfathrebu amlasiantaethol***

- Ymatebwyr wedi'u cydleoli yn "Silver Rooms" er mwyn gwella'r cydgysylltu (Ynys Môn)

[44] Tystiolaeth Lafar, 6.3.2025

- Sefydlu Byrddau Adfer ar ôl Digwyddiadau Mawr gydag asiantaethau partner (RhCT)
- Cyflwyno cyfarfodydd PEAT (Telathrebu Asesiad Cyn Digwyddiad) i sicrhau bod pawb yn ymwybodol o'r sefyllfa (Ynys Môn)
- Sefydlu ystafelloedd rheoli brys i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau mewn amser real (RhCT)
- Adnoddau mewnol wedi'u hailstrwythuro ac oriau gwaith estynedig i ddiwallu'r galw (Sir Gaerfyrddin)

**Ymgysylltu â'r cyhoedd a chyfathrebu**

- Creu neu wella tudalennau gwe penodol ar lifogydd i gefnogi parodrwydd preswylwyr (RhCT)
- Cynnydd yn nifer yr ymweliadau â'r wefan yn ystod stormydd, sy'n dangos bod y cyhoedd yn defnyddio'r adnoddau hyn yn effeithiol (RhCT)

**Seilwaith ac amddiffyn rhag llifogydd**

- Defnyddiwyd tua 7,000 o fagiau tywod (RhCT)
- Cynhaliwyd 289 o archwiliadau ar ôl llifogydd (RhCT)
- Cwblhawyd gwaith atgyweirio brys ar briffyrdd (e.e. yr A4059 yn Aberpennar) (RhCT)
- Uwchraddiwyd rhwydweithiau telemetreg ar gyfer monitro llifogydd (RhCT)
- Sefydlwyd Tîm Draenio Priffyrdd pwrpasol ar gyfer cynnal a chadw ac atgyweirio (RhCT)
- Lansiwyd prosiect i asesu a diogelu tai cyngor sy'n agored i niwed (RhCT)
- Cafodd cwlfertau a oedd wedi dymchwel eu gwneud yn ddiogel gan gontractwyr (Blaenau Gwent)

**Defnyddio adnoddau a logisteg**

- Defnyddiwyd partneriaethau corfforaethol ar gyfer cyflenwadau brys (RhCT)
- Anfonwyd y Groes Goch Brydeinig yn ddyddiol i'r ardaloedd yr effeithiwyd arnynt waethaf, gan ddarparu cefnogaeth emosiynol ac ymarferol (RhCT)

- Cefnogwyd gwirfoddolwyr BCG a REACT gyda chymorth logistaidd (RhCT)
- Derbyniwyd 600+ o alwadau gan y cyhoedd am lifogydd (RhCT)
- Darparwyd cymorth dyngarol a chymorth o ddrws i ddrws (Blaenau Gwent)
- Defnyddiwyd canolfannau gorffwys a llety brys ar gyfer preswylwyr a oedd wedi gorfod symud o'u tai (RhCT, Blaenau Gwent)
- Newidiodd staff gofal cartref batrymau sifftiau er mwyn parhau i ddarparu gwasanaethau i bobl agored i niwed (Sir Gaerfyrddin).

**83.** Fforymau Gwydnwch Lleol yw'r prif fecanwaith ar gyfer cydweithio amlasiantaeth ar faterion amddiffyn sifil. Mae'r fforymau'n cynnwys yr holl ymatebwyr Categorïau 1 a 2 lleol. Mae yna bedwar Fforwm Gwydnwch Lleol yng Nghymru, wedi'u trefnu ar sail Ardaloedd yr Heddlu:

- Fforwm Gwydnwch Dyfed Powys;
- Fforwm Gwydnwch Gwent;
- Fforwm Gwydnwch De Cymru; a
- Fforwm Gwydnwch Gogledd Cymru.

**84.** Tynnodd Huw Percy sylw at effeithiolrwydd y gwaith cydgysylltu rhanbarthol drwy Fforymau Gwydnwch Lleol, yn enwedig pan oedd rhybuddion yn cynyddu i lefelau ambr. Tynnodd Paul Ridley o Gyngor Sir Caerfyrddin sylw at bwysigrwydd dulliau uwchgyfeirio clir. Yn Sir Gaerfyrddin, roedd ymatebion gweithredol amrywiol gan asiantaethau partner wedi creu her o ran cydgysylltu:

> *"Some agencies retracted their response services whilst others continued. This is a very tricky balance of keeping our teams safe and working to allow emergency responders and essential service providers to access patients and facilities."*[45]

**85.** Amlinellodd Simon Brown amrywioldeb sylweddol ymhlith Fforymau Gwydnwch Lleol o ran eu hymateb i rybuddion tywydd. Dywedodd:

> *"My general response to that is that this is a risk-based decision. When we are into medium-impact or high-impact yellows, for me, that is when the responder community should be really looking at, 'What is our risk here?' I can find the e-mail in a bit,*

[45] Tystiolaeth Ysgrifenedig

*but we were signalling on the Friday significant difficult local conditions for communities, and for me, when I read that language, it means, 'Okay, do need to do something different?' North Wales did stand up a call involving all four local resilience forums, but there was no tactical co-ordination group set up until the Sunday, and at that point, the flooding was happening."*[46]

**86.** Pwysleisiodd yr angen am brotocolau cliriach i sicrhau ymatebion cyson, gan gynnwys pryd y dylid cynnull grwpiau tactegol. Adleisiodd Russell Turner y pwyntiau hyn.

## Ymateb gan gwmnïau cyfleustodau a chwmnïau trafnidiaeth

**87.** Esboniodd Dŵr Cymru fod ei ymateb yn dechrau pan fydd y Swyddfa Dywydd yn cyhoeddi rhybudd tywydd. Mae'n adolygu lefel y rhybudd yn unol â'r sbardunau digwyddiad yn ei Lawlyfr Ymateb i Ddigwyddiadau, a fydd wedyn yn golygu bod angen ffurfio tîm digwyddiad Aur neu Arian i ddarparu'r lefel briodol o reolaeth mewn perthynas â pharodrwydd, ymateb ac adferiad. Fodd bynnag, mewn tystiolaeth lafar, dywedodd Ian Christie o Dŵr Cymru nad oedd effeithiau Storm Bert yn cyfateb i rybudd melyn a'i bod yn cyfiawnhau rhybudd ar lefel uwch. Pwysleisiodd Steven Joseph o Dosbarthiad Trydan y Grid Cenedlaethol fod ei ymateb yn canolbwyntio ar adfer gwasanaethau, waeth beth fo lefelau'r rhybudd.

**88.** Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd Cyngor Sir Caerfyrddin:

*"National Grid power outages had the most protracted impact on Carmarthenshire. Power company representatives that attended the TCG's & SCG 's appeared to have limited information due to the scale and severity of the damage caused by the storm. Consequently, there was a lack of clarity on their recovery position, repair timelines changed constantly and didn't reflect the information provided to the public. The provision of community welfare hubs by the National Grid was slow to deploy and poorly publicised."*[47]

**89.** Tynnodd Dŵr Cymru sylw at effaith toriadau pŵer ar seilwaith dŵr yn ystod stormydd. Dadleuodd dros flaenoriaethu cwmnïau dŵr wrth ailgysylltu'r grid trydan, gan ddweud y byddai rhoi blaenoriaeth i gwmnïau dŵr o ran ailgysylltu â'r

[46] Tystiolaeth Lafar, 20.2.2025
[47] Tystiolaeth Ysgrifenedig

grid trydan yn ei gynorthwyo i gael ei asedau yn ôl ar-lein ac osgoi toriadau yn y cyflenwad dŵr ac effaith ar ei gwsmeriaid, busnesau a gwasanaethau cyhoeddus hanfodol.[48]

**90.** Galwodd hefyd ar bob un o'r pedwar Fforwm Gwydnwch Lleol yng Nghymru i ddatblygu cynlluniau ymateb rhanbarthol i doriadau pŵer, gan ddweud:

> *"this could provide a focus on power response… Bringing the water and power companies closer together… would assist us during times when assets are offline."*[49]

**91.** Tynnodd cynrychiolwyr o gwmnïau cyfleustodau sylw at yr heriau y gallant eu hwynebu yn ystod digwyddiadau tywydd eithafol, pan fydd sianeli cyfathrebu traddodiadol yn methu. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, eglurodd SP Energy Networks:

> *"In advance of the storm, SPEN proactively contacted 68,000 customers and sent 200,000 SMS and voice messages to customers in the most impacted areas. Once the storm hit, SPEN worked with Local Resilience Forums (LRF) to open rest centres across the impacted areas to provide customers with a warm space and access to showers, hot water, food and drinks. Over the course of Storm Darragh, SPEN took a total of c.77,000 calls (c.65,000 of which were for SPM), prioritising vulnerable customers who were on the Priority Services Register (PSR)."*[50]

**92.** Cyfeiriodd Steven Joseph, o'r Grid Cenedlaethol, at gynnydd mewn ymgysylltiad cwsmeriaid yn ystod y stormydd, gan ddweud bod defnydd o'r wefan wedi cynyddu tua 4,000 y cant yn ystod Storm Darragh.

**93.** Disgrifiodd Ian Christie o Dŵr Cymru aflonyddwch difrifol yn ystod Storm Darragh, gan gynnwys colli mynediad at rwydweithiau ffonau symudol a chysylltedd â llinellau tir. Dywedodd, mewn rhai ardaloedd gwledig, nad oedd cwsmeriaid yr effeithiwyd arnynt yn gallu cysylltu â'r cwmni dros y ffôn na'r rhyngrwyd.[51]

[48] Tystiolaeth Ysgrifenedig
[49] Tystiolaeth Ysgrifenedig
[50] Tystiolaeth Ysgrifenedig
[51] Tystiolaeth Lafar, 6.3.2025

## Preswylwyr sy'n agored i niwed a Chofrestrau Gwasanaethau Blaenoriaeth

**94.** Mynegwyd pryderon gan gynrychiolwyr awdurdodau lleol ynghylch y Cofrestrau Gwasanaethau Blaenoriaeth, a gedwir gan gwmnïau cyfleustodau ac a ddefnyddir i adnabod a chefnogi unigolion sy'n agored i niwed yn ystod argyfyngau. Dywedodd Huw Percy fod y rhestrau a ddarparwyd gan gwmnïau cyfleustodau yn anghywir. Roedd hyn yn ei gwneud hi'n heriol i awdurdodau adnabod a chefnogi preswylwyr sy'n agored i niwed. Galwodd am well cydgysylltu a rhannu data rhwng cwmnïau cyfleustodau, awdurdodau lleol a gwasanaethau iechyd.

**95.** Adleisiwyd hyn gan Gyngor Sir Caerfyrddin mewn tystiolaeth ysgrifenedig:

> *"The datasets were inaccurate, out of date, definitions of vulnerability were not compatible with NHS / social care definitions and the sheer volume of data produced thousands of names, resulting in council assets being redeployed to screen the data in order to compare with Council and health board records. This caused unnecessary delays and on several occasions and diverted operational staff away from their responsive work in order to check address[es] which did not either exist or in one case, the customer had passed away years before."*[52]

**96.** Roedd Ian Christie, o Dŵr Cymru, yn cydnabod bod diffygion, yn enwedig diffyg o ran integreiddio data ar draws sefydliadau, Cofrestrau Gwasanaethau Blaenoriaeth lluosog, a diffiniadau gwahanol o bobl sy'n agored i niwed. Roedd Liam O'Sullivan, o SP Energy Networks, yn cytuno a phwysleisiodd ymdrechion parhaus i ddiweddaru manylion cwsmeriaid yn rheolaidd, gan gynnwys drwy bartneriaethau â sefydliadau'r trydydd sector.

## Sefydliadau Cymunedol a Sefydliadau'r Trydydd Sector

> Thema a gododd dro ar ôl tro yn ein gwaith ymgysylltu oedd cymorth cymunedol, a'r ffaith bod cymdogion a grwpiau lleol yn chwarae rhan hanfodol yn hynny o beth drwy helpu ei gilydd. Nododd llawer fod ymdeimlad cryf o wydnwch cymunedol yn hanfodol wrth helpu pobl i ymdopi ag effeithiau uniongyrchol y stormydd a chyda'r broses adfer tymor hwy.

[52] Tystiolaeth Ysgrifenedig

*"Y gymuned yn sicr yw'r rhai sydd wedi ein helpu fwyaf. Aeth y tractorau â ni o'n tŷ i dafarn yn y pentref. O fewn hanner awr roedd y dafarn yn llawn. Roedd pobl wedi dod â dillad a theganau i ni i'r plant. Cwmni lleol sy'n berchen ar y tŷ rydyn ni bellach yn byw ynddo. Daethon nhw i lawr gydag allweddi ar gyfer y tŷ. Roedd pobl leol a thractorau a pheiriannau cloddio allan yn helpu i glirio'r llanast.*

*Bydden ni wedi bod ar goll heb ein cymuned."*

Roedd aelodau oedrannus o'r gymuned, yn arbennig, yn dibynnu'n fawr ar gymorth lleol yn ystod y stormydd. Nododd un fod ei gymdogion wedi gallu rhoi lampau a llusernau iddo ar ôl iddo golli pŵer yn ystod Storm Darragh. Roedd effaith y storm yn golygu na allai gofalwyr ei gyrraedd.

Amlygwyd rhwydweithiau cymunedol, gan gynnwys grwpiau WhatsApp a safleoedd cyfryngau cymdeithasol, fel ffynhonnell allweddol ar gyfer rhannu gwybodaeth, cyfathrebu a chefnogaeth. Lle roedd diffyg cyfathrebu gan sianelau swyddogol neu awdurdodau, drwy'r sianeli cyfathrebu hyn y derbyniodd trigolion a pherchnogion busnesau wybodaeth.

**97.** Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, disgrifiodd Cyngor RhCT ymgysylltiad sylweddol â sefydliadau'r trydydd sector gan ddweud bod y Groes Goch Brydeinig wedi cael ei hanfon i'r ardaloedd yr effeithiwyd arnynt waethaf ym Mhontypridd a Threherbert er mwyn cynnig cymorth emosiynol ac ymarferol i dros 300 o bobl mewn 46 o gartrefi. Roedd gwirfoddolwyr REACT hefyd yn darparu ymdeimlad o ddiogelwch i gartref preswyl dros nos drwy aros ar y safle.[53]

**98.** Tynnodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent sylw at ymateb dyngarol cydlynol da yn ystod Storm Bert, gan gynnwys canolfannau gorffwys, llety brys, a chymorth ariannol. Dywedodd:

> *"Humanitarian assistance was provided… an emergency accommodation for those unable to return to their homes… Gwent Association of Voluntary Organisations (GAVO) was approached to coordinate the funding received through numerous 'go fund me' fundraising platforms."*[54]

**99.** Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, eglurodd y Groes Goch Brydeinig sut yr oedd wedi cefnogi cymunedau yr effeithiwyd arnynt gan lifogydd yn ystod Storm Bert. Fodd bynnag, roedd hyn wedi cael ei lesteirio yn sgil oedi wrth gyhoeddi'r cais i'w

[53] Tystiolaeth Ysgrifenedig
[54] Tystiolaeth Ysgrifenedig

ddefnyddio gan yr awdurdod lleol, a achosodd i wirfoddolwyr gael eu hoedi'n ddiangen rhag cael eu defnyddio am y 24 awr gyntaf. Argymhellodd y Groes Goch Brydeinig y dylai awdurdodau lleol ddatblygu gweithdrefnau gweithredu a phrotocolau rhannu data safonol gydag ymatebwyr y Sector Gwirfoddol ac Elusennol.

### Grwpiau Llifogydd Cymunedol

**100.** Daeth ymgysylltu effeithiol â'r gymuned, yn enwedig drwy grwpiau llifogydd lleol a rhwydweithiau gwirfoddol, i'r amlwg fel thema gref yn strategaethau ymateb i stormydd awdurdodau lleol.

**101.** Disgrifiodd Andrew Stone yr her o gynnal grwpiau llifogydd cymunedol gweithredol yn Rhondda Cynon Taf, gan nodi anawsterau o ran cynnal diddordeb a chyfranogiad y cyhoedd rhwng digwyddiadau stormydd. Awgrymodd y gellid cyflawni rôl fwy drwy strategaethau cyfathrebu cliriach a mwy o ymgysylltiad â sefydliadau gwirfoddol sefydledig fel y Groes Goch Brydeinig. Adleisiodd Huw Percy hyn, gan dynnu sylw at enghraifft grŵp llifogydd ym Miwmares ar Ynys Môn. Rhybuddiodd fod effeithiolrwydd grwpiau o'r fath yn aml yn dibynnu ar ymrwymiad unigolion. Roedd yn cytuno bod cymorth strwythuredig, parhaus a chyfathrebu clir ynghylch cyfrifoldebau yn hanfodol. Roedd Cyngor Sir Caerfyrddin yn cytuno.

**102.** Cyfeiriodd y Cynghorydd Jackie Charlton at brofiadau cadarnhaol Cyngor Sir Powys gyda grwpiau llifogydd cymunedol. Tynnodd sylw at sut y bu i grwpiau o'r fath wella parodrwydd ac ymateb ar lefel y gymuned yn sylweddol, gan nodi y gall pobl leol ymateb yn llawer cyflymach na'r awdurdod lleol.[55]

**103.** Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd CNC:

> *"Yr ydym yn annog cymunedau lleol i ysgrifennu eu cynlluniau llifogydd cymunedol eu hunain fel eu bod yn ymwybodol o berygl llifogydd yn eu hardal ac wedi cynllunio'r hyn y byddant yn ei wneud os bydd llifogydd i leihau'r niwed iddynt hwy eu hunain a'u heiddo. Mae adnoddau ar gael ar ein gwefan i gynorthwyo cymunedau gyda'r gwaith hwn. Mae CNC yn gweithio gyda sefydliadau trydydd sector fel y Fforwm Llifogydd Cenedlaethol, y Groes Goch Brydeinig a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, sydd eu hunain yn rhoi arweiniad i grwpiau*

[55] Tystiolaeth Ysgrifenedig, 6.3.2025

*llifogydd cymunedol, yn cynnig cyrsiau, ac yn helpu gyda mynediad at gyllid."*[56]

**104.** Yn ei adroddiad "Meithrin y Gallu i Wrthsefyll Llifogydd yng Nghymru erbyn 2050", gwnaeth CSCC argymhellion mewn perthynas â chynnwys y gymuned. Un o'i argymhellion oedd "Cynnwys cymunedau mewn prosesau gwneud penderfyniadau sy'n gysylltiedig â gwrthsefyll llifogydd ac archwilio sefydlu Rheithgorau Dinasyddion neu Gynulliadau Dinasyddion erbyn 2027 i roi fframwaith ar gyfer modelau llywodraethu newydd, gan rymuso cymunedau i ymgynnull a chyfrannu'n weithredol at ymdrechion gwrthsefyll." Esboniodd yr Adroddiad:

*"Ar hyn o bryd, nid oes cymorth strwythuredig na chyllid penodol ar gyfer ymdrechion i wrthsefyll llifogydd a arweinir gan y gymuned, sy'n arwain at lefelau amrywiol o barodrwydd mewn rhanbarthau. Mewn gwrthgyferbyniad, gall yr argymhelliad i sefydlu grwpiau cydnerth cymunedol â chyllid a ddyrennir a chymorth technegol rymuso cymunedau i ddatblygu cynlluniau gwrthsefyll pwrpasol, gan feithrin dull mwy unedig a rhagweithiol o liniaru perygl llifogydd."*

**105.** Aeth ymlaen i ddweud bod modelau presennol ar gyfer hyn mewn rhannau eraill o'r DU, fel "Y Ganolfan Lifogydd… a sefydlwyd gan Bwyllgor Llifogydd ac Arfordirol Rhanbarthol Gogledd-orllewin Lloegr, sy'n darparu model ar gyfer cronni a lledaenu adnoddau a gwybodaeth werthfawr ar reoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yn effeithiol."

## Tystiolaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet

**106.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet fod cynnydd sylweddol wedi'i wneud o ran gwella gallu Cymru i wrthsefyll stormydd drwy waith cydweithredol, amlasiantaeth. Pwysleisiodd yr angen i bob partner, gan gynnwys asiantaethau'r llywodraeth, Fforymau Gwydnwch Lleol, gwasanaethau iechyd, elusennau a grwpiau gwirfoddol, gyfrannu at gynllunio gwydnwch. Dywedodd:

*"The traumatic incidents we see also give us the opportunity then to ask how we strengthen our evidence base in what we know, and how do we communicate and engage with all responders across Wales, including the Welsh Government, about existing and emerging risks. That means then that we can have a greater collective understanding of what the short,*

[56] Tystiolaeth Ysgrifenedig

> *medium and long-term civil protection risks are, and how that informs the work that we're engaged in on preparedness, response and recovery."*[57]

**107.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet y byddai cyhoeddi Fframwaith Gwydnwch Cymru yn anelu at nodi rolau a chyfrifoldebau ymatebwyr brys a Fforymau Gwydnwch Lleol, a darparu canllawiau ar y broses o gynllunio gwydnwch.

**108.** Cadarnhaodd swyddog a oedd yng nghwmni Ysgrifennydd y Cabinet y byddai cyllid newydd ar gael i gefnogi gwaith cydgysylltu amlasiantaeth o fewn Fforymau Gwydnwch Lleol:

> *"The First Minister has approved new funding, to support that multi-agency co-ordination work, looking ahead, so that we have a more robust approach at the local and national level."*[58]

**109.** Yn nhystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

> *"Rydym eisoes wedi sefydlu platfform JIG-SO fel rhan o DataMapWales, fydd yn cadw gwybodaeth am bobl fregus sy'n byw mewn eiddo 'mewn perygl' ac a fydd ar gael i ymatebwyr yn ystod digwyddiad mawr. Gan ddefnyddio'r gwersi a ddysgwyd yn ystod stormydd y gaeaf hwn, mae Tîm Diogelwch a Gwydnwch Cenedlaethol Llywodraeth Cymru yn ystyried sut y gallwn wella mynediad at ddata cynhwysfawr o ansawdd uchel."*[59]

**110.** Yn ei ymateb i argymhellion CSCC ar gynnwys y gymuned, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

> *"Rydym yn cydnabod pwysigrwydd cefnogi cymunedau yn ystod llifogydd ac wrth ddatblygu eu gallu i'w gwrthsefyll yn yr hirdymor. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru ac Awdurdodau Lleol ill dau yn cael eu hariannu i drafod â chymunedau a'u grymuso i baratoi rhag peryglon llifogydd a rheoli'r risgiau hynny. Bydd ganddynt rôl bwysig o ran rhoi'r argymhelliad hwn ar waith, gan dynnu ar eu profiad."*

[57] Tystiolaeth Lafar, 27.3.2025
[58] Tystiolaeth Lafar, 27.3.2025
[59] Tystiolaeth Ysgrifenedig

## Ein barn ni

Mae'r Pwyllgor yn nodi nad yw Fframwaith Ymateb i Lifogydd Llywodraeth Cymru wedi'i ddiweddaru ers 2016, er gwaethaf y cynnydd yn amlder a difrifoldeb digwyddiadau tywydd eithafol. Dywedodd sawl awdurdod lleol wrthym nad yw'r Fframwaith bellach yn adlewyrchu'r perygl cyfredol na'r realiti o ran y gweithrediadau. Credwn fod yn rhaid adolygu a diweddaru'r Fframwaith i adlewyrchu'r perygl llifogydd presennol.

Clywsom bryderon am anghysondebau o ran sut a phryd y bu i Fforymau Gwydnwch Lleol roi strwythurau cydlynu tactegol a strategol ar waith yn ystod stormydd Bert a Darragh. Mae diffyg eglurder ynghylch y trothwyon ar gyfer cynnull Grwpiau Cydlynu Tactegol a Grwpiau Cydlynu Strategol. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r awgrymiadau bod angen protocolau uwchgyfeirio cliriach a chyson. Dylid adlewyrchu hyn mewn fersiwn ddiwygiedig o'r Fframwaith Ymateb i Lifogydd.

Nodwn y sylwadau y byddai cyllid ar gael i gefnogi gwaith cydgysylltu amlasiantaeth o fewn Fforymau Gwydnwch Lleol a byddem yn ddiolchgar o gael diweddariad ar y mater hwn.

Mae'r Pwyllgor yn pryderu ynghylch annigonolrwydd y data a gedwir ar bobl sy'n agored i niwed. Roedd Cofrestrau Gwasanaethau Blaenoriaeth cwmnïau cyfleustodau yn anghywir ac nid oedd y wybodaeth yn gyfoes. Credwn fod angen system Cofrestrau Gwasanaethau Blaenoriaeth unedig ac integredig sy'n cael eu rhannu rhwng ymatebwyr allweddol, a hynny ar fyrder. Roedd yn ddiddorol clywed Ysgrifennydd y Cabinet yn cyfeirio at y prosiect JIGSO, a all ddarparu gwybodaeth gyfoes i ymatebwyr am aelwydydd sydd mewn perygl mewn sefyllfaoedd brys. Mae'n arwyddocaol, fodd bynnag, nad oedd unrhyw gyfrannwr arall at ymchwiliad y Pwyllgor wedi cyfeirio at y prosiect hwn. Efallai mai diffyg ymwybyddiaeth sydd yn gyfrifol am hyn. Byddem yn gwerthfawrogi rhagor o wybodaeth am y defnydd o JIGSO gan ymatebwyr, a ph'un a allai JIGSO fod yn ddewis arall hyfyw yn lle cofrestrau gwasanaethau blaenoriaeth.

Yn y dystiolaeth a dderbyniwyd gennym, daeth gwydnwch cymunedol i'r amlwg fel un o'r elfennau mwyaf cadarnhaol i ddeillio o'r ymateb i stormydd diweddar. Dywedodd preswylwyr mai cymdogion a busnesau lleol oedd y ffynhonnell gymorth gyntaf a mwyaf effeithiol yn aml. Fodd bynnag, clywsom fod ymgysylltiad ffurfiol rhwng awdurdodau lleol a sefydliadau cymunedol neu wirfoddol yn amrywio'n sylweddol. Mae'r Pwyllgor yn credu y dylai Fforymau

Gwydnwch Lleol ddatblygu cytundebau clir, safonedig gyda phartneriaid yn y trydydd sector i sicrhau y gellir eu defnyddio’n gyflym.

Mae grwpiau llifogydd cymunedol yn gwneud cyfraniad sylweddol, ond ar hyn o bryd maent yn gweithredu heb gymorth na chyllid cyson. Credwn y dylai Llywodraeth Cymru weithio ochr yn ochr â CNC i ymchwilio i gyfleoedd i ddatblygu grwpiau gwydnwch cymunedol wedi’u hariannu ledled Cymru.

Ni ddylai cyfranogiad cymunedol fod yn gyfyngedig i’r ymateb uniongyrchol i ddigwyddiadau. Rhaid rhoi strwythurau ar waith i alluogi cyfranogiad ystyrlon mewn cynllunio ar gyfer y gallu i wrthsefyll llifogydd, er mwyn sicrhau bod cymunedau nid yn unig yn derbyn gwybodaeth, ond yn cyd-gynhyrchu’r cynlluniau a fydd yn effeithio arnynt. Roedd yn ddiddorol clywed barn gadarnhaol Ysgrifennydd y Cabinet ar y mater hwn a byddem yn ddiolchgar o gael diweddariad ar y cynnydd.

## Argymhellion

**Argymhelliad 6.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet sicrhau bod y Fframwaith Ymateb i Lifogydd yn cael ei adolygu a’i ddiweddaru i adlewyrchu’r gwersi o’r llifogydd sydd wedi digwydd ers 2016.

**Argymhelliad 7.** Dylai’r Fframwaith Ymateb i Lifogydd ddiffinio rolau a chyfrifoldebau, gan gynnwys i’r rhai mewn rolau arwain, ar draws pob lefel o lywodraeth ac asiantaethau ymateb, er mwyn gwella dealltwriaeth ac atebolrwydd.

**Argymhelliad 8.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet roi’r wybodaeth ddiweddaraf am y cyllid ychwanegol a ddarperir i Fforymau Gwydnwch Lleol i gefnogi gwaith cydgysylltu amlasiantaethol.

**Argymhelliad 9.** Dylai’r Fframwaith Ymateb i Lifogydd nodi protocolau uwchgyfeirio clir ar gyfer Grwpiau Cydlynu Tactegol a Strategol.

**Argymhelliad 10.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet egluro sut y caiff y prosiect JIGSO ei ddefnyddio a’i effeithiolrwydd, gan gynnwys a allai fod yn ddewis arall dibynadwy i’r systemau Cofrestr Gwasanaethau Blaenoriaeth presennol, neu ategu’r rhain. Dylai Ysgrifennydd y Cabinet nodi sut y bydd yn gwella ymwybyddiaeth o’r offeryn ymhlith ymatebwyr brys.

**Argymhelliad 11.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet sicrhau bod Fforymau Gwydnwch Lleol yn datblygu cytundebau ffurfiol, safonol gyda sefydliadau’r trydydd sector,

gan sicrhau y gellir defnyddio'r partneriaid hyn yn gyflym ac yn effeithiol yn ystod argyfyngau.

**Argymhelliad 12.** Dylai fod cydnabyddiaeth gryfach o rôl grwpiau cymunedol. Dylai Ysgrifennydd y Cabinet weithio ochr yn ochr â CNC i ymchwilio i gyfleoedd i ddarparu cyllid cynaliadwy ar gyfer grwpiau gwydnwch cymunedol.

**Argymhelliad 13.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet roi diweddariad i'r Pwyllgor ar y camau sy'n cael eu cymryd gan Lywodraeth Cymru neu CNC i ymgorffori cyfranogiad cymunedol mewn prosesau cynllunio ar gyfer y gallu i wrthsefyll llifogydd, gan gynnwys drwy fforymau dinasyddion a chynlluniau lleol a gyd-ddyluniwyd.

# 4. Cymorth i gymunedau ac unigolion

## Barn pobl leol yr effeithiwyd arnynt gan y stormydd

Soniodd sawl un o'r cyfrannwr at ein gwaith ymgysylltu am y straen ariannol a achoswyd gan ddifrod oherwydd stormydd, gan gynnwys difrod i eiddo a cholli enillion.

*"Dwi wedi amcangyfrif fy mod i wedi colli £15,000 o ran colli stoc, colli enillion a glanhau ac ati. Y tro hwn roedd rhaid i fi dalu i drydanwr ailweirio popeth. Dyna gost fawr i fi ei thalu. Nid y llifogydd go iawn sy'n peri'r gofid mwyaf i fi - ond yr wythnosau a'r misoedd wedyn yn ceisio rhoi'r siop yn ôl at ei gilydd. Dyna'r effaith fwyaf – gorfod cau i lanhau."*

Cafodd rhai o'r cyfweleion yr effeithiwyd arnynt gan lifogydd gymorth ariannol gan yr awdurdod lleol hefyd ond roeddent yn honni nad yw £1,000 "yn crafu'r wyneb" o ran atgyweirio'r difrod.

Roedd cyfranogwr arall yn falch o fod wedi cael siec annisgwyl am £640 am wasanaeth trydan yr amharwyd arno yn ei ardal.

Teimlai rhai cyfranwyr fod preswylwyr wedi cael llai o gymorth o gymharu â'r busnesau yr effeithiwyd arnynt yn eu hardal. Roedd un cyfwelai yn teimlo bod y cyngor yn "canolbwyntio fwy ar adfer busnesau".

## Cyllid ar gyfer aelwydydd a busnesau yr effeithiwyd arnynt gan stormydd

**111.** Ar ôl Storm Bert, ariannodd Llywodraeth Cymru grantiau gwerth £500 a £1000 i aelwydydd yr effeithiwyd arnynt gan lifogydd, a ddarparwyd drwy awdurdodau lleol. Roedd rhai awdurdodau lleol hefyd yn cynnig cymorth ariannol ar wahân ar ôl Storm Bert. Er enghraifft, darparodd Cyngor Bwrdeistref Sirol RhCT grantiau gwerth £1000 i breswylwyr a busnesau yr effeithiwyd arnynt.

**112.** Cafodd rhai cwsmeriaid iawndal yn sgil tarfu ar eu cyflenwad dŵr, fel yr amlinellir yng nghynllun safonau gwarantedig Llywodraeth y DU. Darparodd Dŵr Cymru iawndal i gwsmeriaid yr effeithiwyd arnynt gan ei Hysbysiad Berwi Dŵr yng Nghwm Rhondda.

**113.** Yn yr un modd mae'n rhaid i Weithredwyr Rhwydweithiau Dosbarthu ddarparu iawndal yn dilyn tarfu ar gyflenwadau ynni, fel yr amlinellir gan Ofgem.

Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd Scottish Power Manweb (SPM) ei fod wedi mynd ati'n rhagweithiol i ddarparu iawndal i gwsmeriaid yr effeithiwyd arnynt gan doriadau trydan. Dywedodd Dosbarthiad Trydan y Grid Cenedlaethol (NGED) ei fod wedi gwneud 46,000 o daliadau i gwsmeriaid ar ôl Storm Darragh.

**114.** Yn ei chyflwyniad ysgrifenedig, tynnodd y Groes Goch Brydeinig sylw at fylchau sylweddol yn y cymorth sydd ar gael i unigolion yr effeithir arnynt gan lifogydd ledled y DU, yn seiliedig ar arolwg cenedlaethol a gynhaliwyd gan y mudiad. Yn ôl y Groes Goch, mae tua hanner (46%) y bobl sy'n profi llifogydd yn y DU yn cael rhyw fath o gymorth ymarferol fel cymorth i adael eu cartrefi neu lety dros dro, ac mae'r rhan fwyaf o'r cymorth yn cael ei ddarparu gan deulu neu ffrindiau. Roedd mynediad at gymorth ariannol yn brin. Nododd mai dim ond 5% a ddywedodd eu bod wedi cael cymorth ariannol gan eu cyngor lleol, roedd 24% wedi nodi bod y cymorth a gawsant yn annigonol ac roedd 21% a nododd bod angen cymorth ariannol arnynt hefyd wedi dweud nad oeddent wedi cael unrhyw gymorth o'r fath. Argymhellodd y Groes Goch Brydeinig y dylai Llywodraeth Cymru wella argaeledd grantiau cymorth mewn argyfwng a chymorth ariannol brys i aelwydydd yr effeithiwyd arnynt gan lifogydd, megis drwy gynnwys difrod llifogydd o dan y meini prawf cymhwystra ar gyfer y Gronfa Cymorth Dewisol.

**115.** Nododd y Cynghorydd Jackie Charlton fod y cymorth ariannol a gynigiwyd i'r preswylwyr yr effeithiwyd arnynt wedi cael ei gwerthfawrogi yn union ar ôl y llifogydd. Fodd bynnag, cododd bryderon ynghylch symiau'r cyllid, yn enwedig ar gyfer preswylwyr nad oedd ganddynt yswiriant. Dywedodd fod y swm yr oeddent yn ei gael yn eithaf bach mewn gwirionedd o ystyried y difrod ac nad oes angen llawer o ddŵr er mwyn creu difrod mawr.[60] Awgrymodd yr angen am roi ystyriaeth bellach i p'un a yw'r lefelau cymorth presennol yn diwallu anghenion preswylwyr.

**116.** Codwyd materion yn ymwneud ag yswiriant gan nifer o'r cyfranwyr. Tynnodd Andrew Stone sylw at y ffaith bod eiddo a adeiladwyd cyn 2009 yn gymwys i gael yswiriant o dan y cynllun Flood Re[61] fel arfer ond cydnabuwyd bod y system hon yn anodd ei defnyddio. Pwysleisiodd nifer o gynrychiolwyr awdurdodau lleol yr angen am gyfathrebu cliriach a mwy hygyrch gan ddarparwyr yswiriant a chyrff llywodraeth i helpu preswylwyr a busnesau i ddeall cymhlethdodau yswiriant llifogydd yn well.

[60] Tystiolaeth Ysgrifenedig, 6.3.2025
[61] Mae Flood Re yn gynllun y cytunwyd arno rhwng Llywodraeth y DU a chwmnïau yswiriant. Mae'n darparu yswiriant rhag llifogydd ar gyfer eiddo domestig y bernir eu bod mewn perygl mawr o ddioddef llifogydd.

## Effaith ar lesiant

Soniodd nifer o gyfranogwyr am y niwed emosiynol a achoswyd gan y difrod y gwnaethant ei ddioddef yn sgil storm. Tynnodd nifer o gyfweleion sylw at yr heriau parhaus a achosir gan lifogydd sy'n digwydd dro ar ôl tro, yn enwedig y straen y mae'n ei roi ar fusnesau a phreswylwyr. Disgrifiwyd baich meddyliol ymdopi ag ôl-effeithiau'r difrod a'r ansicrwydd parhaus ynghylch digwyddiadau tywydd eithafol, yn enwedig i'r rhai sy'n wynebu'r aflonyddwch hwn dro ar ôl tro.

**117.** Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig, nododd y Groes Goch Brydeinig fod canlyniadau iechyd meddwl yn bryder. Dywedodd fod 40% o'r rhai a oedd wedi profi llifogydd yn y DU wedi nodi bod ganddynt anghenion iechyd meddwl cymedrol neu ddifrifol o'r herwydd, ond nododd 26% fod y cymorth iechyd meddwl ar ôl llifogydd yn annigonol.[62]

**118.** Disgrifiodd y Cynghorydd Andrew Morgan sut yr oedd llifogydd a oedd yn digwydd dro ar ôl tro yn achosi pryder a gofid mawr, yn enwedig i breswylwyr nad oedd ganddynt yswiriant.

## Tystiolaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet

**119.** Disgrifiodd Ysgrifennydd y Cabinet y cymorth ariannol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru mewn ymateb i stormydd difrifol, gan ddweud:

> *"This is emergency funding. This is not the normal sort of investment we were just talking about. This is an emergency response that has affected often significant numbers of people."*[63]

**120.** Canmolodd awdurdodau lleol am eu hymatebion rhagweithiol:

> *"Local authorities themselves also have stepped up to the mark and said, 'We will put additional funding in that goes above and beyond what's coming from the Welsh Government to help.'"*[64]

**121.** Pwysleisiodd fod digwyddiadau ar raddfa lai fel arfer yn dod o fewn cyfrifoldebau awdurdodau lleol yn hytrach na Llywodraeth Cymru. Tynnodd sylw at fecanweithiau cymorth presennol, gan egluro bod Llywodraeth Cymru wedi

[62] Tystiolaeth Ysgrifenedig
[63] Tystiolaeth Lafar, 27.3.2025
[64] Tystiolaeth Lafar, 27.3.2025

rhoi cyllid i awdurdodau lleol i'w galluogi i roi mesurau ar waith mewn tai unigol, a'u hatgyweirio a'u hadfer cyn gynted â phosibl. Cydnabu'r heriau i awdurdodau lleol o ran darparu cymorth ariannol, yn enwedig i'r rhai sy'n profi digwyddiadau dro ar ôl tro.[65]

## Ein barn ni

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gref o'r effeithiau eang y mae digwyddiadau tywydd garw wedi'u cael ar breswylwyr, busnesau a chymunedau. Er bod cymorth ariannol ac ymarferol wedi bod ar gael yn dilyn stormydd diweddar, disgrifiodd llawer o gyfranwyr heriau difrifol a chylchol nad ydynt yn cael eu datrys gan y system bresennol.

Mae'r Pwyllgor yn nodi'r sylwadau nad yw taliadau brys i aelwydydd yr effeithir arnynt yn adlewyrchu gwir gost y difrod yn sgil llifogydd na'r aflonyddwch hirdymor y mae hynny'n ei achosi. Mae stormydd diweddar, ac yn enwedig y llifogydd y gallant eu hachosi, wedi arwain at golledion ariannol sylweddol. I rai, fe wnaeth y baich ariannol barhau am wythnosau neu fisoedd ar ôl y digwyddiad. Er bod taliadau brys yn cael eu gwerthfawrogi, roeddent yn aml yn cael eu disgrifio'n annigonol, yn enwedig ar gyfer aelwydydd heb yswiriant a'r rhai sy'n cael eu heffeithio dro ar ôl tro. Credwn y dylai Llywodraeth Cymru adolygu digonolrwydd y cynlluniau grant brys hyn.

Mae'r Pwyllgor yn pryderu ynghylch y mynediad cyfyngedig at yswiriant llifogydd fforddiadwy i breswylwyr a busnesau. Credwn fod yn rhaid i lywodraethau ac yswirwyr wneud mwy i symleiddio ac egluro mynediad at yswiriant. Rhaid cryfhau rôl awdurdodau lleol o ran cynnig cyngor a chyfeirio pobl at ddarparwyr hefyd.

Clywsom sut y mae dioddef llifogydd dro ar ôl tro wedi cael effaith emosiynol ar breswylwyr. Rydym yn pryderu nad yw cymorth iechyd meddwl yn cael ei integreiddio fel mater o drefn i'r ymateb i lifogydd ac adferiad. Rhaid rhoi'r un flaenoriaeth i lesiant preswylwyr ag a wneir i atgyweirio seilwaith ffisegol. Rydym yn argymell y dylid ymgorffori cymorth iechyd meddwl mewn strategaethau ymateb i lifogydd lleol a'i wneud yn hygyrch drwy wasanaethau a phartneriaethau cymunedol.

[65] Tystiolaeth Lafar, 27.3.2025

## Argymhellion

**Argymhelliad 14.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet adolygu pa mor ddigonol yw'r cyllid brys presennol a ddarperir gan Lywodraeth Cymru i aelwydydd yr effeithir arnynt gan lifogydd, er mwyn sicrhau bod cymorth ariannol yn adlewyrchu'n well y costau sy'n deillio o ddigwyddiadau tywydd garw.

**Argymhelliad 15.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet gyflwyno cyllid grant i alluogi cartrefi a busnesau unigol i roi mesurau gwydnwch ataliol ar waith, fel llifddorau.

**Argymhelliad 16.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar sut, yn ei farn ef, y gellir hyrwyddo cynlluniau yswiriant presennol fel Flood Re yn well i breswylwyr ardaloedd sy'n wynebu risg uchel o ddioddef llifogydd yng Nghymru.

**Argymhelliad 17.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet gymryd camau i sicrhau bod cymorth iechyd meddwl yn cael ei integreiddio i strategaethau lleol ar gyfer ymateb i lifogydd ac adfer o lifogydd.

# 5. Gwydnwch y seilwaith

Nododd sawl aelod o'r cyhoedd ddiffyg gwydnwch yn y seilwaith, yn enwedig amddiffynfeydd rhag stormydd. Nododd un cyfranogwr fod ei stryd wedi dioddef llifogydd o fewn y rhwystr llifogydd oherwydd system ddraenio aneffeithiol:

*"Y broblem yw, pan fydd yr afon yn cyrraedd pedwar metr, mae'r bibell yn cael ei blocio a does unman i'r dŵr fynd. Felly, rydyn ni'n dioddef llifogydd o'r tu mewn i'r rhwystr. Mae'r dŵr yn codi drwy'r draeniau."*

Nododd cyfranogwyr eraill effeithiau andwyol colli pŵer am gyfnod sylweddol o amser yn ystod Storm Darragh. Disgrifiodd un cyfwelai sut y cafodd ei adael heb bŵer am "chwech neu saith diwrnod", a disgrifiodd un arall sut y cafodd ei adael heb drydan am ddeuddydd.

Disgrifiodd un cyfranogwr o ardal wledig sut y bu i Storm Darragh ddifrodi'r mast ffôn symudol lleol, gan olygu bod y gymuned gyfan wedi colli signal ffôn am dros wythnos. Ynghyd â thoriadau i'r cyflenwad trydan, roedd hyn yn gwneud cyfathrebu'n anodd iawn. Roedd mynediad at signal ffôn yn hanfodol ar gyfer derbyn gwybodaeth a chymorth drwy grwpiau WhatsApp cymunedol ar-lein a negeseuon ffôn symudol.

## Cynnal a chadw'r seilwaith a buddsoddi ynddo

**122.** Tynnodd cynrychiolwyr awdurdodau lleol sylw at heriau difrifol yn ymwneud â gwydnwch y seilwaith lleol yn wyneb digwyddiadau tywydd sy'n mynd yn fwyfwy difrifol.

**123.** Dywedodd Cyngor Ynys Môn fod Storm Darragh wedi amlygu "diffyg gwydnwch y pontydd ar draws y Fenai a bu'n rhaid cau Pont Britannia. Yn ffodus, nid oedd hyn ar gyfnod brig". Datgelodd y storm hefyd wendidau mewn meysydd eraill, gan gynnwys "y cyflenwad trydan, porthladd Caergybi a'r signal ffôn symudol mewn rhai ardaloedd". Roedd y risg i gysylltedd rhwng yr ynys a'r tir mawr yn bryder penodol: "Roedd pryderon y gallai lorïau fynd yn sownd o dan rhai o fwâu Pont Menai neu ddifrodi'r bont. Byddai hyn yn golygu colli'r unig gyswllt rhwng Ynys Môn a'r tir mawr."[66].

**124.** Dywedodd Cyngor RhCT, ers Storm Dennis yn 2020, fod y Cyngor wedi buddsoddi dros £100 miliwn mewn gwelliannau er mwyn atgyweirio, uwchraddio

[66] Tystiolaeth Ysgrifenedig

a gwella cwlfertau ac asedau eraill. Yn ystod Storm Bert, llwyddodd y gwelliannau hyn i leihau'r risg o lifogydd i oddeutu 2,269 o adeiladau, fodd bynnag effeithiwyd ar tua 15% o'r holl asedau sy'n eiddo i'r Cyngor sydd wedi derbyn buddsoddiad ac roedd cyfanswm cost amcangyfrifedig y difrod i seilwaith dros £8 miliwn.[67]

**125.** Rhoddodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent asesiad llym o gyflwr ei seilwaith, gan ddweud bod ei seilwaith yn hen, ac mewn sawl achos mae wedi cyrraedd diwedd ei oes. Cyfeiriodd y Cyngor at ei allu cyfyngedig i ymgymryd â gwaith cynnal a chadw rhagweithiol oherwydd cyllideb ac adnoddau dynol annigonol, gan ychwanegu bod angen cyllid ac adnoddau arno i reoli ac ailwampio ei asedau'n effeithiol er mwyn sicrhau eu bod mewn cyflwr digon da i fodloni'r lefelau gwydnwch sydd eu hangen i ymdopi â newid hinsawdd.[68]

**126.** Nododd Cyngor Sir Powys fod rhwydwaith priffyrdd Powys yn fregus, gyda'r rhan fwyaf ohono heb ei adeiladu na'i gynllunio i safonau modern. Nododd fod hyn yn gwneud y rhwydwaith yn agored i niwed o ganlyniad i ddigwyddiadau tywydd anarferol a bod cyllid ar gyfer asedau priffyrdd dan bwysau sylweddol o ran refeniw a chyfalaf, a bod ôl-groniad sylweddol o waith. Rhybuddiodd y Cyngor fod y rhwydwaith yn wynebu risg sylweddol bellach yn sgil newid hinsawdd.[69]

**127.** Pwysleisiodd Cyngor Sir Powys y baich hirdymor y mae stormydd wedi'i roi ar ei seilwaith gan ddweud fod Llywodraeth Cymru, rhwng 2020/21 a 2023/24, wedi cefnogi Powys yn ariannol gyda swm £3.99m i'w helpu i adfer ar ôl Storm Dennis a stormydd eraill ond yr amcangyfrifir bod ymateb adweithiol a brys i'r ddwy storm hon wedi costio £320,000 i'r awdurdod lleol. Ychwanegodd fod angen gwerth o leiaf tuag £1.1 miliwn o waith adfer ychwanegol i atgyweirio'r difrod a achoswyd i'r rhwydwaith priffyrdd.[70]

**128.** Cyfeiriodd y Cynghorydd Andrew Morgan at gyfyngiadau Cynllun Cymorth Ariannol Brys (EFAS) Llywodraeth Cymru. Er bod y cynllun yn cynnig ad-dalu costau y tu hwnt i drothwy cychwynnol (85% ar ôl cyfraniad y cyngor o tua £1.2 miliwn), nododd mai dim ond gweithgareddau ymateb uniongyrchol a glanhau brys y mae'n eu cynnwys, ac nad oedd yn cynnwys atgyweiriadau i seilwaith fel ailadeiladu pontydd. Tynnodd sylw at bont Abercynon fel enghraifft, gan ddweud nad oedd y prosiect £5 miliwn i ailadeiladu'r bont yn dod o fewn y cynllun presennol.

[67] Tystiolaeth Ysgrifenedig
[68] Tystiolaeth Ysgrifenedig
[69] Tystiolaeth Ysgrifenedig
[70] Tystiolaeth Ysgrifenedig

**129.** Adleisiwyd hyn yn nhystiolaeth ysgrifenedig Cyngor Sir Fynwy, a fynegodd bryder ynghylch tegwch ac ymarferoldeb trothwyon cymorth ariannol brys presennol. Dywedodd y dylid adolygu trothwyon cyllido EFAS gan ei bod yn hawdd gwario £420,000 pan fydd y gyllideb yn £6m, ond nad yw mor hawdd gwneud hynny pan fo'r gyllideb yn £600,000.[71]

## Cyflwr cwlfertau

**130.** Cododd awdurdodau lleol bryderon ynghylch cyflwr, perchnogaeth, a chyfrifoldebau cynnal a chadw sy'n gysylltiedig â systemau cwlfert a draenio - yn enwedig yng nghyd-destun digwyddiadau tywydd garw rheolaidd.

**131.** Cyfeiriodd Cyngor RhCT at waith glanhau helaeth yn dilyn Storm Bert, gan ddweud bod tuag 80 tunnell o falurion wedi cael eu tynnu o'r system draenio dŵr wyneb a 1,500 tunnell arall o asedau cwlfert ar ôl y storm.[72]

**132.** Pwysleisiodd Ainsley Williams o Gyngor Sir Caerfyrddin nad oedd llawer o gwlfertau wedi'u cynllunio i ymdopi â dwyster presennol y glawiad. Tynnodd Kevin Kinsey, Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, sylw at yr anhawster o gynnal a chadw cwlfertau anghysbell a hen ffasiwn, sydd mewn perygl mawr o gael eu blocio yn ystod digwyddiadau tywydd eithafol. Mewn ymateb i hynny, argymhellodd cynrychiolwyr awdurdodau lleol fuddsoddiad wedi'i dargedu i uwchraddio hen gwlfertau ac ymgorffori mesurau fel basnau malurion wrth gynllunio seilwaith.

**133.** Roedd eglurder ynghylch cyfrifoldebau glannau afonydd yn bryder mawr i awdurdodau lleol. Disgrifiodd Kevin Kinsey rwystredigaeth llawer o awdurdodau ynghylch camddealltwriaeth y cyhoedd o gyfrifoldebau cynnal a chadw cwlfertau a ffosydd preifat o dan gyfraith glannau afonydd, gan egluro bod tirfeddianwyr yn aml yn tybio, a hynny'n gyfeiliornus, mai awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am hynny.

**134.** Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd Cyngor RhCT, o blith cyfanswm y cwlfertau y gwyddys iddynt gael eu heffeithio gan Storm Bert, yr amcangyfrifir bod 64% ohonynt yn rhai preifat ac yn cyfrif am tuag 20% o gyfanswm yr adeiladau yr effeithiwyd arnynt.[73]

**135.** Dywedodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent fod perchnogaeth a chynnal a chadw cwlfertau yn rhywbeth arbennig o gymhleth, gan fod llawer yn mynd drwy dir cyhoeddus a phreifat lle mae sawl un yn gyfrifol am y gwaith

[71] Tystiolaeth Ysgrifenedig
[72] Tystiolaeth Ysgrifenedig
[73] Tystiolaeth Ysgrifenedig

cynnal a chadw.[74] Adleisiodd Cyngor Sir Powys y pryderon hyn, gan dynnu sylw at yr heriau y mae awdurdodau lleol yn eu hwynebu wrth fynd i'r afael â phroblemau draenio ar dir preifat.

## Tystiolaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet

**136.** Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

> *"This year (2024-2025), we have maintained our record levels of funding for flood risk management at £75 million, through our Flood and Coastal Erosion Risk Management Programme. The 2025-2026 FCERM Programme will be announced in Spring 2025."*[75]

**137.** Cydnabu Ysgrifennydd y Cabinet fod natur flynyddol proses pennu cyllideb Llywodraeth Cymru wedi bod yn ffactor a oedd wedi cyfyngu ar hyn, i ryw raddau. Cyfeiriodd at enghreifftiau o brosiectau llwyddiannus amlflwyddyn, mwy o faint, gan gynnwys cynlluniau rheoli llifogydd yn Aberaeron a Stryd Stephenson, Casnewydd:

> *"Most of these big projects do not happen in one year, so we in the Welsh Government project fund for multiple years for these big projects already. We do it at our risk, however, but the contractors know it's there, the money's coming forward because we've committed to it."*[76]

**138.** Roedd yn gobeithio y gallai cylchoedd cyllideb yn y dyfodol newid i setliadau amlflwyddyn, gan y byddai hyn yn gwella cynllunio hirdymor ac o bosibl yn cefnogi strategaethau rheoli llifogydd arloesol a llai traddodiadol. Yn ei ymateb i Adroddiad CSCC, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

> *"Rwy'n cydnabod y dadleuon o blaid buddsoddi yn y maes hwn a'r manteision a ddaw o gael setliadau aml-flwyddyn. Cafodd y materion hyn eu codi hefyd yn yr adroddiad 'Gofynion Buddsoddi Hirdymor' a chan y Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol. Mae'r ffordd y mae'n derbyn ei chyllideb ac a yw'r gyllideb honno yn rhoi sicrwydd am flwyddyn neu am sawl blwyddyn, yn ffrwyno Llywodraeth Cymru. Rwyf wedi gofyn i'm swyddogion ystyried beth mwy y gallem ei wneud yn hyn o*

[74] Tystiolaeth Ysgrifenedig
[75] Tystiolaeth Lafar, 27.3.2025
[76] Tystiolaeth Lafar, 27.3.2025

> *beth, gan gydnabod bod cynlluniau buddsoddi tymor hwy yn bod ar gyfer buddsoddi mewn meysydd seilwaith eraill."*

**139.** Wrth ymateb i bryderon ynghylch cyfrifoldebau glannau afonydd, nododd Ysgrifennydd y Cabinet fod canllawiau eisoes ar gael i'r cyhoedd. Fodd bynnag, cydnabu'r angen i ledaenu'r wybodaeth hon yn well ar lefel awdurdod lleol er mwyn sicrhau mwy o ymwybyddiaeth a chydymffurfiaeth. Dywedodd:

> *"There is already a guidance document, and it makes it clear that riparian owners carry responsibility, and how this works and what the responsibilities are."*[77]

**140.** Ymrwymodd i drafod y potensial i gryfhau'r canllawiau presennol gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Dai a Llywodraeth Leol.

## Ein barn ni

Mae'r dystiolaeth a gafodd y Pwyllgor ynghylch pa mor agored yw seilwaith Cymru i ddifrod yn sgil digwyddiadau tywydd eithafol yn destun pryder. Yn amlwg, nid yw llawer o'n seilwaith wedi'i gynllunio ar gyfer hinsawdd yr oes sydd ohoni, ac mewn rhai achosion mae wedi cyrraedd diwedd ei oes, neu wedi mynd y tu hwnt i hynny. Rydym yn canmol y buddsoddiad a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru drwy'r rhaglen Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol, ond yn parhau i fod yn bryderus ynghylch maint yr angen sy'n weddill. Rhaid i uwchraddio systemau draenio, cwlfertau ac amddiffynfeydd rhag llifogydd fod yn flaenoriaeth i'r ardaloedd hynny sydd mewn perygl.

Roedd cyflwr ac eglurder cyfrifoldeb dros seilwaith cwlfertau a draenio yn thema a gododd dro ar ôl tro yn y dystiolaeth. Disgrifiwyd llawer o gwlfertau fel rhai a oedd wedi'u cynnal a'u cadw'n wael, yn anodd eu cyrraedd, a heb eu cynllunio ar gyfer tywydd stormus yr oes sydd ohoni. Mae heriau penodol lle mae seilwaith draenio yn croesi tir cyhoeddus a phreifat, a ble mae perchnogaeth a chyfrifoldebau cyfreithiol yn aml yn aneglur. Credwn fod angen brys am ddull cydlynol cenedlaethol o reoli cwlfertau. Dylid rhoi canllawiau clir i berchnogion tir ar gyfrifoldebau glannau afonydd, ochr yn ochr ag offer mapio a chymorth i wella cydymffurfiaeth a lleihau anghydfodau.

Mae'r Pwyllgor yn nodi'r sylwadau bod y Cynllun Cymorth Ariannol Brys (EFAS) wedi'i ddiffinio'n rhy gul i ddiwallu anghenion awdurdodau lleol sy'n deillio o ddigwyddiadau tywydd garw. Rydym yn argymell y dylid ystyried ymestyn y Cynllun Cymorth Ariannol Brys (EFAS) i gefnogi'r gwaith o adfer seilwaith

[77] Tystiolaeth Lafar, 27.3.2025

hanfodol ac y dylid adolygu trothwyon i adlewyrchu capasiti ariannol awdurdodau lleol.

## Argymhellion

**Argymhelliad 18.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod canllawiau cenedlaethol ar gyfrifoldebau glannau afonydd, gan gynnwys ar gyfer cwlfertau a ffosydd, yn cael eu diweddaru a'u hyrwyddo. Dylai'r canllawiau gael eu hategu gan offer mapio, cofrestr o berchnogion, a chymorth ar gydymffurfio i dirfeddianwyr.

**Argymhelliad 19.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet adolygu'r Cynllun Cymorth Ariannol Brys (EFAS) i sicrhau bod trothwyon y cynllun yn adlewyrchu capasiti ariannol awdurdodau lleol i ymateb i ddigwyddiadau tywydd garw sy'n codi dro ar ôl tro.

# 6. Paratoi ar gyfer dyfodol mwy aflonyddgar

**141.** Yn ogystal â'r materion a nodwyd yn y penodau blaenorol, nododd y cyfranwyr nifer o ymyriadau tymor hwy y maent yn credu y dylid eu hystyried.

**142.** Yn ystod y degawdau diwethaf mae dwyster y glaw yn ystod y gaeaf wedi cynyddu oherwydd y newid yn yr hinsawdd. Mae cynnydd pellach yng nglawiad cyfartalog y gaeaf ac amlder stormydd yn debygol o ddigwydd y ganrif hon, sy'n golygu bod 23% yn fwy o adeiladau yng Nghymru mewn perygl o ddioddef llifogydd o afonydd erbyn 2120[78].

**143.** Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig, eglurodd y Swyddfa Dywydd:

> *"A recent attribution study has shown that climate change has made rainfall during storms more intense through the autumn and winter".*[79]

**144.** Ychwanegodd fod glawiad y DU yn nhymor y gaeaf 2023-24 20% yn fwy dwys oherwydd y newid yn yr hinsawdd a achoswyd gan bobl.[80]

Pwysleisiodd sawl aelod o'r cyhoedd bwysigrwydd cynllunio hirdymor i baratoi ar gyfer stormydd yn y dyfodol er mwyn mynd i'r afael â'r materion a godwyd yn ystod stormydd Bert a Darragh. Mae hyn yn cynnwys gwella seilwaith ffisegol yn ogystal â chryfhau gwydnwch cymunedol. Nododd nifer o gyfranogwyr eu pryder ynghylch y cymorth a fydd ar gael iddynt yn y dyfodol.

*"Dwi wedi sylwi yn y tair gwaith dwi wedi dioddef llifogydd bod y dŵr wedi mynd yn uwch bob tro Mae'n bendant yn mynd yn waeth. Mae'r dŵr yn mynd yn uwch ac yn uwch bob tro y cawn ni lifogydd."*

*"Fe wnaeth i fi sylweddoli bod angen i ni fod yn llawer mwy gwydn..... Y ffordd dw i'n ei weld e - wrth i'r trychineb hinsawdd waethygu, bydd rhaid i ni ddibynnu mwy ar ein gilydd a llai ar y cyngor oherwydd bydd yn broblem rhy fawr i awdurdodau lleol neu'r Senedd ddelio â hi. Felly, mae angen i ni fod wedi adeiladu hyb cymunedol i ddelio â hi a gwybod pwy yw'r bobl iawn sy'n gallu helpu. Dwi ddim yn gwybod sut rydych chi'n datblygu gwydnwch cymunedol, ond mae angen i ni fod yn fwy parod."*

[78] Cyfoeth Naturiol Cymru / Adroddiad blynyddol rheoli risg llifogydd 2023 i 2024
[79] Tystiolaeth Ysgrifenedig
[80] Tystiolaeth Ysgrifenedig

## Cynllunio strategol

**145.** Yn ei Adroddiad, argymhellodd CSCC y dylai Llywodraeth Cymru "[g]reu strategaeth genedlaethol 30 mlynedd hirdymor ar gyfer gwrthsefyll llifogydd ac erydu arfordirol erbyn 2026, yn seiliedig ar weledigaeth 30 mlynedd ar gyfer gwrthsefyll llifogydd, a dull gweithredu sy'n seiliedig ar ddalgylchoedd". Eglurodd:

> *"Daw ein hymchwil i'r casgliad nad yw'r strategaeth 10 mlynedd bresennol yn ddigon hir i wneud y penderfyniadau angenrheidiol yn y tymor hwy ynglŷn â rheoli perygl llifogydd. Mae haenau'r cynlluniau presennol yn gymhleth o bosibl ac mae'n heriol eu cysoni â'i gilydd."*

**146.** Mewn tystiolaeth lafar, anogodd Eluned Parrott (CSCC) gyrff cyhoeddus i ymateb i risgiau sy'n dod i'r amlwg yn y dyfodol yn hytrach na chanolbwyntio ar ymateb i'r presennol. Pwysleisiodd fod cynllunio tymor byr yn cael ei adlewyrchu yn y system ariannu, gan egluro bod angen mwy o sgiliau, buddsoddiad yn ein tirweddau, ymrwymiad hirdymor i gyllido, sy'n bethau nad ydynt yn cael eu darparu drwy'r systemau presennol.[81]

**147.** Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, pwysleisiodd CNC yr angen am ddull amlochrog ac esblygol, gan ddweud:

> *"Nid oes un ateb unigol i'r risgiau a achosir gan lifogydd, a bydd angen gweithredu'r ystod lawn o ymyriadau… mae'n gofyn am gynllunio strategol cryf o ran defnydd tir, rheoli dalgylchoedd dŵr cyfan, datblygu galluoedd rhagweld a rhybuddio a gweithlu medrus, adeiladu eiddo sy'n gallu gwrthsefyll llifogydd, creu cymunedau sy'n ymwneud â rheoli'r materion, a llawer mwy."*[82]

### Adroddiadau Adran 19

**148.** Mae Adran 19 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 yn mynnu bod yn rhaid i Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol (LLFAs) yng Nghymru ymchwilio i ddigwyddiadau llifogydd a chyhoeddi adroddiadau pan ystyrir bod angen gwneud hynny. Mae'r adroddiadau hyn, a elwir hefyd yn adroddiadau Adran 19, yn manylu ar achosion ac effeithiau llifogydd, yn nodi'r partïon cyfrifol, ac yn argymell mesurau i liniaru risgiau yn y dyfodol. Mae Strategaeth Genedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer Llifogydd ac Erydu Arfordirol yn awgrymu y dylid cynhyrchu

[81] Tystiolaeth Lafar, 27.3.2025
[82] Tystiolaeth Ysgrifenedig

adroddiadau Adran 19 ar gyfer digwyddiadau sy'n ymwneud ag 20 o gartrefi neu fwy sy'n profi llifogydd mewnol.

**149.** Ym mis Awst 2023, cyhoeddwyd adroddiad annibynnol ar 'adolygiad o adroddiadau adran 19 llywodraeth leol a Cyfoeth Naturiol Cymru am lifogydd eithafol yn ystod gaeaf 2020-21'. Arweiniwyd yr adolygiad gan yr Athro Elwen Evans CB a gwnaeth 18 o argymhellion.

**150.** Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig, cyfeiriodd Heledd Fychan AS at broses Adran 19, gan ddweud:

> *"The Section 19 process does not work as a means to identify future improvements and finding solutions for flooding challenges. This needs to be changed as a matter of urgency. Whilst the focus of the Local lead Flood Authority is taken up with investigations for compiling the Section 19 reports and the flood review reports they are not able to prioritise the solutions and improvements that need to be done in partnership across the Flood Authorities. There is no evidence that Professor Elwen Evans KC's report has been taken forward."*[83]

## Rheoli Perygl Llifogydd ar Raddfa Dalgylch

**151.** Yn ei Adroddiad, argymhellodd y CSCC y dylai Llywodraeth Cymru "[d]reialu a sefydlu partneriaethau dalgylch rhanbarthol/lleol erbyn 2026 (a fydd yn ymgorffori'r fforymau afonydd ac arfordiroedd presennol) er mwyn cefnogi dull systematig ac integredig o reoli dalgylchoedd ac arfordiroedd." Argymhellodd yr Adroddiad hefyd y dylid symleiddio cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yn strategaethau gwydnwch dalgylchoedd erbyn 2026.

**152.** Aeth ymlaen i esbonio:

> *"Bydd newid tuag at waith partneriaeth dalgylch rhanbarthol/lleol integredig yn digwydd ochr yn ochr â newid diwylliannol lle mae'r cyhoedd yn disgwyl chwarae rôl arweiniol mewn prosesau gwneud penderfyniadau lleol a llywio ymdrechion gwrthsefyll ac adfer. Byddai'r partneriaethau hyn yn debyg i'r rhai a sefydlwyd yn 2013 gan Lywodraeth y DU yn fframwaith polisi y Dull Seiliedig ar Ddalgylch.*

[83] Tystiolaeth Ysgrifenedig

> *Mae fframwaith y DU yn cynnig nifer o syniadau ac awgrymiadau i annog cydweithredu drwy'r dalgylch cyfan, yn hytrach na dull rhagnodol o sefydlu mentrau lleol, y dylid eu dilyn yng Nghymru, yn ein barn ni. Byddai cyllid yn cael ei ddyrannu i bob dalgylch er mwyn helpu i sefydlu'r bartneriaeth…"*

**153.** Mewn tystiolaeth lafar, tynnodd Eurgain Powell (CSCC) sylw at gynlluniau llwyddiannus ym Mhartneriaeth Dalgylch Dyffryn Conwy a Dalgylch Afon Wysg, lle bu tirfeddianwyr, awdurdodau lleol a rheoleiddwyr yn cydweithio i gyflawni ymyriadau effeithiol.

**154.** Nododd cynrychiolwyr CNC bwysigrwydd dulliau ar raddfa dalgylch i reoli perygl llifogydd. Esboniodd Jeremy Parr fod ymyriadau ar lefel y dalgylch, fel creu storfa ddŵr i fyny'r afon a gweithredu system rheoli llifogydd naturiol, yn hanfodol i liniaru llifogydd ar raddfa fawr. Tynnodd Gareth O'Shea sylw at her CNC o ran cydbwyso cyfrifoldebau rheoli llifogydd uniongyrchol â buddsoddi mewn mentrau rheoli dalgylchoedd hirdymor.

## Dull rheoli llifogydd yn seiliedig ar natur

**155.** Clywodd y Pwyllgor gefnogaeth gref gan gynrychiolwyr awdurdodau lleol i gynyddu'r defnydd o reoli llifogydd sy'n seiliedig ar natur. Nododd y Cynghorydd Jackie Charlton fod hyn yn flaenoriaeth ar gyfer lliniaru perygl llifogydd ledled Powys, ond pwysleisiodd fod angen darparu cymorth ariannol parhaus i dirfeddianwyr a rhanddeiliaid amaethyddol ar gyfer atebion sy'n seiliedig ar natur.

**156.** Nododd Ainsley Williams gynlluniau rheoli llifogydd naturiol graddfa fach llwyddiannus yn Sir Gaerfyrddin ac argymhellodd y dylid ehangu'r arferion hyn fel elfennau o ddull rheoli perygl llifogydd ehangach.

**157.** Adleisiwyd hyn yn nhystiolaeth ysgrifenedig Cyngor Sir Fynwy, a ddywedodd:

> *"More investment in larger NFM schemes is required. Consideration should be given to the establishment of a multi-agency task force/working groups to consider such schemes on river catchment scales."*[84]

**158.** Roedd Ian Christie o Dŵr Cymru hefyd yn eiriolwr cryf dros atebion sy'n seiliedig ar natur fel offer rheoli llifogydd hanfodol. Fodd bynnag, nododd rwystrau sylweddol, yn enwedig prosesau cynllunio a fframwaith trwyddedu Cyfoeth

[84] Tystiolaeth Ysgrifenedig

Naturiol Cymru, gan ddweud mai cynllunio sy'n achosi'r oedi mwyaf wrth geisio rhoi rhai o'r cynlluniau hyn ar waith.[85] Galwodd am ddiwygiadau i'r broses gynllunio, er mwyn caniatáu i'r dulliau hyn sy'n sensitif i'r amgylchedd gael eu rhoi ar waith yn gyflymach.

## Tystiolaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet

**159.** Yn ei ymateb i Adroddiad CSCC, roedd Ysgrifennydd y Cabinet yn cytuno ei bod yn hanfodol "sicrhau gweledigaeth a chynllun strategol hirdymor i allu addasu a sicrhau gwytnwch yn y tymor hwy, ond rhaid cadw'r [ddysgl] yn wastad rhwng y ffocws ar greu'r weledigaeth honno a'i throi'n weithredu ar lawr gwlad ar y naill law a chanolbwyntio ar weithredu er lles ein cymunedau ar y llall". Ychwanegodd:

> *"Mae'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2020, yn esbonio ein gweledigaeth ar gyfer rheoli perygl llifogydd tan 2030. Mae'n disgrifio'r meysydd y byddwn ni a'n partneriaid yn gweithio arnynt dros y cyfnod statudol o 10 mlynedd, ond mae'n cynnwys polisïau hefyd sy'n ymestyn 100 mlynedd i'r dyfodol. Cyhoeddais hefyd y Strategaeth Ymaddasu i'r Hinsawdd ar gyfer Cymru ym mis Hydref 2024 sy'n disgrifio'n hymrwymiad i ymateb i hinsawdd sy'n newid. Yn y ddogfen honno, rydym yn cydnabod bod llifogydd yn effeithio ar bob maes polisi."*

**160.** Crynhodd drwy ddweud:

> *"Serch hynny, o gofio'r stormydd a gafwyd dros y gaeaf, mae'n amlwg bod angen siarad eto am reoli rhag llifogydd a helpu cymunedau mewn perygl i'w gwrthsefyll. Nid oes angen gweledigaeth na strategaeth newydd i ysgogi'r drafodaeth hon nac i bennu ei chyfeiriad, ond gallent gynnig fframwaith defnyddiol ar ei chyfer."*

**161.** Gan gyfeirio at reoli llifogydd ledled y dalgylch, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet fod y dull yn cynnig potensial mawr i ddarparu atebion sy'n mynd i'r afael â pherygl llifogydd a heriau amgylcheddol ehangach. Nododd ei fod yn credu bod yr ateb yn gorwedd o ucheldiroedd dalgylchoedd yr afonydd yr holl ffordd i lawr. Mewn ymateb i Adroddiad CSCC, roedd Ysgrifennydd y Cabinet yn cytuno bod

[85] Tystiolaeth Lafar, 6.3.2025

“angen rhoi sylw mwy systematig ar ddalgylchoedd wrth reoli perygl llifogydd, ansawdd dŵr ac adnoddau dŵr”. Ychwanegodd:

> *“Rwy’n bwriadu ystyried cynnal peilot, gan ddatblygu’r enghreifftiau presennol, i gloriannu’r dulliau mwyaf effeithiol. Bydd yn bwysig rhoi’r amser i ddatblygu peilot ystyrlon y gellir dysgu ohono. Ni fydd gennym drefn systematig erbyn 2026.”*

**162.** Aeth ymlaen i ddweud:

> *“Rwyf wedi gofyn i’m swyddogion ddatblygu map ffordd i gynllunio dalgylchoedd ar gyfer dŵr. Bydd yn esbonio sut y gallem wneud hyn. Er mwyn helpu i fabwysiadu arferion magu gwytnwch mewn dalgylchoedd ar raddfa ehangach, rydym wedi cyhoeddi mapiau cyfle ar gyfer rheoli llifogydd naturiol ar Fap Data Cymru. Mae’r mapiau cyfle yn helpu partneriaid i nodi’r lleoliadau posibl mwyaf effeithiol ar gyfer cynnal gwaith rheoli llifogydd cenedlaethol. Rydym yn gweithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru i ddatblygu’r sylfaen dystiolaeth hon er mwyn datblygu prosiectau ar raddfa dalgylch yn y dyfodol.”*

**163.** Cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet ymrwymiad Llywodraeth Cymru i atebion sy’n seiliedig ar natur fel cyfeiriad polisi allweddol yn y dyfodol. Cydnabu bryderon a godwyd gan randdeiliaid, gan gynnwys Dŵr Cymru, bod rheolau cynllunio a thrwyddedu presennol yn aml yn cyfyngu ar ddulliau mwy cynaliadwy o reoli llifogydd, gan wthio datblygwyr i lawr y trywydd o dywallt concrit. Dywedodd fod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i atebion sy’n seiliedig ar natur yn ogystal â dulliau rheoli dalgylchoedd.[86]

## Ein barn ni

Mae’n amlwg bod newid hinsawdd eisoes yn effeithio ar ddifrifoldeb ac amlder digwyddiadau tywydd eithafol yng Nghymru. Mae dwyster stormydd Bert a Darragh, a’r effaith a gafodd y ddwy storm ar gymunedau ledled Cymru, yn atgyfnerthu’r angen am ddull strategol hirdymor o gynllunio a buddsoddi mewn gwydnwch.

Nodwn y sylwadau gan y CSCC ac eraill fod y Strategaeth Genedlaethol 10 mlynedd gyfredol ar gyfer Llifogydd ac Erydu Arfordirol yn annigonol i ymdopi â maint yr her hinsawdd. Awgrymwyd y byddai strategaeth genedlaethol tymor hwy, 30 mlynedd ar gyfer gwrthsefyll llifogydd ac erydu arfordirol yn galluogi

[86] Tystiolaeth Lafar, 27.3.2025

cyrff cyhoeddus i wneud penderfyniadau buddsoddi mwy uchelgeisiol a blaengar. Adeg ein hymchwiliad, rydym hanner ffordd drwy oes y strategaeth 10 mlynedd. Gyda dim ond 5 mlynedd ar ôl, rhaid i Lywodraeth Cymru ddechrau meddwl nawr a yw strategaeth 10 mlynedd yn darparu'r lefel briodol o gynllunio hirdymor.

Nid ydym yn argyhoeddedig bod proses adrodd Adran 19 mor ddefnyddiol ag y gallai fod. Credwn fod angen grymuso cymunedau i wella eu gwydnwch a chynllunio ar gyfer y dyfodol, ac nid yw proses Adran 19 yn cyflawni hyn. Byddem yn ddiolchgar o gael diweddariad ar y cynnydd o ran gweithredu argymhellion adolygiad Elwen Evans CB.

Rydym yn cytuno ag Ysgrifennydd y Cabinet bod gan ddulliau ar raddfa dalgylch gryn botensial ddarparu atebion rheoli perygl llifogydd cynaliadwy, cydgysylltiedig. Rydym yn cefnogi creu partneriaethau dalgylch rhanbarthol a lleol ac yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i dreialu'r dulliau hyn. Nodwn sylwadau Ysgrifennydd y Cabinet y bydd yn archwilio cynllun peilot cyn y gellir cyflwyno dull systematig yn ddiweddarach. Byddem yn ddiolchgar o gael diweddariad gan Ysgrifennydd y Cabinet ar ddatblygu'r map ffordd ar gyfer cynllunio dalgylchoedd.

Roedd cefnogaeth gyson gan y cyfranwyr i ehangu atebion sy'n seiliedig ar natur. Gall ymyriadau o'r fath fod yn effeithiol ac yn gost-effeithiol, gan ddarparu manteision amgylcheddol ehangach ar yr un pryd. Nodwn fod Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno Rhaglen Lywodraethu i "reoli llifogydd mewn modd sy'n seiliedig ar natur ym mhob dalgylch afon mawr i ehangu cynefinoedd gwlyptiroedd a choetiroedd".

Clywsom hefyd y gall rheolau cynllunio a thrwyddedu gyflwyno rhwystrau sylweddol i weithredu. Byddem yn ddiolchgar o gael diweddariad gan Ysgrifennydd y Cabinet ar y camau penodol sy'n cael eu cymryd ar lefel strategol i ehangu atebion sy'n seiliedig ar natur a sicrwydd y bydd y cynlluniau hyn yn parhau i gael eu hariannu y tu hwnt i 2025-26.

## Argymhellion

**Argymhelliad 20.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet ystyried a yw strategaeth 10 mlynedd, fel y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Llifogydd ac Erydu Arfordirol, yn ddigonol i sicrhau cynllunio a buddsoddi hirdymor gwell.

**Argymhelliad 21.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet roi diweddariad ar weithredu argymhellion adolygiad Adran 19, a arweiniwyd gan Elwen Evans CB.

**Argymhelliad 22.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet adolygu proses ymchwilio i lifogydd Adran 19 i sicrhau ei bod yn cefnogi cynllunio gwydnwch lleol yn well.

**Argymhelliad 23.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygu'r map ffordd cynllunio dalgylchoedd, gan gynnwys amserlenni a chyfranogiad rhanddeiliaid.

**Argymhelliad 24.** O ystyried eu heffaith bosibl, dylai Ysgrifennydd y Cabinet flaenoriaethu'r gwaith o ehangu atebion sy'n seiliedig ar natur, a sicrhau bod lefelau priodol o gyllid ar gael at y diben hwnnw. Dylid rhoi cymorth i ffermwyr a thirfeddianwyr ddeall eu cyfrifoldebau a'r cyfleoedd yn y maes polisi hwn.

**Argymhelliad 25.** Dylai Ysgrifennydd y Cabinet roi diweddariad ar y camau sy'n cael eu cymryd i ehangu'r defnydd o atebion sy'n seiliedig ar natur, gan gynnwys manylion sut y mae'r rhain yn cael eu hymgorffori mewn fframweithiau polisi a sicrwydd y bydd y cynlluniau hyn yn parhau i gael eu hariannu y tu hwnt i 2025-26.

# Atodiad 1: Rhestr o'r sesiynau tystiolaeth lafar

Cyflwynodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Mae trawsgrifiadau o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar ar gael ar wefan y Pwyllgor.

| Dyddiad | Enw a Sefydliad |
|---|---|
| **20 Chwefror 2025** | **Dr Eurgain Powell,**<br>Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru<br>**Eluned Parrott,**<br>Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru<br>**Simon Brown,**<br>Y Swyddfa Dywydd<br>**Russell Turner,**<br>Canolfan Darogan Llifogydd<br>**Cllr Andrew Morgan,**<br>Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC)<br>**Andrew Stone,**<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf<br>**Huw Percy,**<br>Cyngor Sir Ynys Môn |
| **6 Mawrth 2025** | **Steven Joseph,**<br>Dosbarthiad Trydan y Grid Cenedlaethol<br>**Liam O'Sullivan,**<br>SP Energy Networks (Manweb)<br>**Ian Christie,**<br>Dŵr Cymru Welsh Water<br>**Kevin Kinsey,**<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent<br>**Ainsley Williams,**<br>Cyngor Sir Caerfyrddin<br>**Paul Ridley,**<br>Cyngor Sir Caerfyrddin<br>**Jackie Charlton,**<br>Cyngor Sir Powys<br>**Matt Perry,**<br>Cyngor Sir Powys |

| Dyddiad | Enw a Sefydliad |
|---|---|
| **12 Mawrth 2025** | **Gareth O'Shea,**<br>Cyfoeth Naturiol Cymru<br>**Jeremy Parr,**<br>Cyfoeth Naturiol Cymru<br>**Tim England,**<br>Cyfoeth Naturiol Cymru |
| **27 Mawrth 2025** | **Huw Irranca-Davies AS, y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**<br>Llywodraeth Cymru<br>**Clare Fernandes,**<br>Llywodraeth Cymru<br>**Claire Bennett,**<br>Llywodraeth Cymru<br>**Andy Fraser,**<br>Llywodraeth Cymru |

# Atodiad 2: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Cyflwynodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Gellir gweld yr holl ymatebion i'r Ymgynghoriad a gwybodaeth ysgrifenedig ychwanegol ar wefan y Pwyllgor.

- Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru
- Y Swyddfa Dywydd
- Canolfan Darogan Llifogydd
- Cyngor Sir Ynys Môn
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
- Heledd Fychan AS
- Andrew RT Davies AS
- Dosbarthu Trydan y Grid Cenedlaethol
- Rhwydweithiau Ynni ScottishPower
- Dŵr Cymru Welsh Water
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
- Cyngor Sir Gaerfyrddin
- Cyngor Sir Powys
- Trafnidiaeth Cymru
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Partneriaeth Aber Hafren
- Traffig Cymru
- Y Groes Goch Brydeinig

## Gwybodaeth ychwanegol

| Teitl | Dyddiad |
|---|---|
| Llythyr dilynol gan SP Energy Networks at y Cadeirydd mewn perthynas ag ymchwiliad y Pwyllgor i'r ymateb i stormydd (Saesneg yn unig) | 18 Mawrth 2025 |
| Llythyr gan Dŵr Cymru at y Cadeirydd mewn perthynas ag ymchwiliad y Pwyllgor i'r ymateb i stormydd | 31 Mawrth 2025 |
| Ymateb gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig at y Cadeirydd yn dilyn y sesiwn graffu ar 27 Mawrth | 25 Ebrill 2025 |